

## Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2021

### Adroddiad Ansawdd Cefndir

Paratowyd ar gyfer: VisitEngland, VisitScotland, Croeso Cymru

Paratowyd gan: BMG

Ystadegydd: David Stephens ~ +44 300 061 6110 ~ [ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru](mailto:ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru)

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099    Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050

Twitter: [@ystadegaucymru](https://twitter.com/ystadegaucymru)

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....	4
2. Cyswllt.....	4
2.1 Uned sefydliad cyswllt .....	4
2.2 Enw cyswllt .....	4
2.3 Swyddogaeth person cyswllt .....	4
2.4 Cyfeiriad post cyswllt .....	5
2.5 Cyfeiriad e-bost cyswllt.....	5
2.6 Rhif ffôn cyswllt .....	5
3. Cyflwyniad ystadegol.....	5
3.1 Disgrifiad data.....	5
3.2 System ddsbarthu.....	5
3.3 Cwmpas o ran sector .....	8
3.4 Cysyniadau a diffiniadau ystadegol .....	8
3.6 Poblogaeth ystadegol .....	10
3.7 Ardal gyfeirio .....	10
3.8 Cwmpas amser .....	10
3.9 Cyfnod sylfaen .....	10
4. Prosesu ystadegol.....	10
4.1 Ffynhonnell y data .....	10
4.2 Amllder casglu data .....	14
4.3 Casglu data.....	15
4.4 Dilysu data .....	18
4.5 Crynhoi data .....	19
4.6 Addasiad .....	33
5. Rheoli ansawdd.....	33
5.1 Sicrhau ansawdd.....	33
5.2 Aseiad o ansawdd .....	34
6. Perthnasedd.....	35
6.1 Anghenion defnyddiwr .....	35
6.2 Boddhad defnyddwyr .....	37
6.3 Cyflawnrwydd .....	38
7. Cywirdeb a dibynadwyedd .....	38
7.1 Cywirdeb cyffredinol.....	38
7.2 Gwall samplu .....	38
7.3 Gall nad yw'n un samplu.....	39

7.4 Diwygio data .....	40
7.5 Addasiad tymhorol .....	41
8. Amseroldeb a phrydlondeb .....	42
8.1 Amseroldeb.....	42
8.2 Prydlondeb.....	43
9. Cydlyniad a chymaroldeb .....	43
9.1 Cymaroldeb daearyddol .....	43
9.2 Cymharu dros amser.....	44
9.3 Cydlyniad – traws-barth.....	45
9.4 Cydlyniad – mewnlol .....	45
10. Hygyrchedd ac eglurder.....	46
10.1 Datganiad newyddion.....	46
10.2 Cyhoeddiad .....	46
10.3 Cronfeydd data ar-lein.....	46
10.4 Mynediad at ficro-ddata .....	46
10.5 Arall.....	46
10.6 Dogfennau ar fethodoleg .....	46
10.7 Dogfennau ansawdd .....	46
11. Cost a baich.....	46
11.1 Cost .....	46
11.2 Baich .....	47
12. Cyfrinachedd.....	48
12.1 Cyfrinachedd – polisi .....	48
12.2 Cyfrinachedd – trin data.....	48
13. Sylw.....	48
13.1 Nifer y teithiau y mae amcangyfrifon 2021 yn seiliedig arnynt.....	48
13.2 Disgrifiad o’r atodiadau .....	49
14. Atodiad: Holiadur.....	50
15. Atodiad: Datganiad am Delerau .....	112

# 1. Cyflwyniad

Mae ystadegau'r DU ar dwristiaeth dros nos ddomestig wedi cael eu casglu mewn ffordd eithaf tebyg ers 1989, i ddechrau drwy Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Unedig (UKTS), ac ers 2011 drwy Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) gan dri Sefydliad Twristiaeth Cenedlaethol Prydain.

Bwriad y GBTS yw mesur faint a gwerth teithiau twristiaeth dros nos ddomestig (sy'n cwmpasu holl ddibenion twristiaeth megis gwyliau, ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau a busnes) a gymerwyd gan drigolion Prydain, yn ogystal â chasglu gwybodaeth am nodweddion teithiau a phobl sy'n cymryd teithiau. Teithiau twristiaeth dros nos ddomestig yw'r rhai a gymerwyd gan drigolion Prydain o fewn Cymru, Lloegr a'r Alban. Un o brif ddibenion y GBTS yw datgelu mewnwelediadau i dueddiadau'r farchnad dros amser.

Oherwydd pandemig COVID-19, nid oedd yn bosib casglu data ar gyfer 3 mis cyntaf 2021. Mae hyn oherwydd yr oedd Prydain Fawr i gyd o dan ryw fath o gyfyngiadau symud lle nad oedd teithiau hamdden dros nos yn cael eu caniatáu. Ail-ddechreuodd y gwaith maes yng Nghymru a Lloegr ar 26 Ebrill 2021. Ail-ddechreuodd yn yr Alban ar 10 Mai 2021 oherwydd i'r cyfyngiadau gael eu codi ychydig yn ddiweddarach yn yr Alban. Gan fod yr ymatebwyr yn cael eu holi am eu hymddygiad teithio dros nos yn y pedair wythnos lawn cyn y cyfweiliad, mae hyn yn golygu bod data wedi'i gasglu am y cyfan o Ebrill 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, ond dim ond data rhannol sydd ar gael ar gyfer yr Alban ar gyfer Ebrill 2021 gan nad oedd teithiau'n cael eu caniatáu ar gyfer Ebrill i gyd. Casglwyd data fel arfer ar gyfer gweddill 2021, sy'n golygu bod set ddata lawn 2021 yn rhedeg o fis Ebrill i fis Rhagfyr.

Mae'r adroddiad ansawdd cefndir yn canolbwyntio ar fersiwn bresennol Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, er y gwneir rhai cyfeiriadau at y fersiwn flaenorol pan fo'n berthnasol. Caiff y ddogfen hon ei diweddarau'n flynyddol, ochr yn ochr â chyhoeddi'r canlyniadau blynyddol. Cynhyrchir adroddiad ansawdd cefndir ar wahân ar gyfer Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr (GBDVS).

## 2. Cyswllt

### 2.1 Uned sefydliad cyswllt

VisitEngland, VisitScotland, a Croeso Cymru

### 2.2 Enw cyswllt

VisitEngland: Richard Nicholls

VisitScotland: Lesley Whitehill

Croeso Cymru: David Stephens

### 2.3 Swyddogaeth person cyswllt

VisitEngland: Pennaeth Ymchwil a Darogan

VisitScotland: Uwch Reolwr Mewnwelediadau Twristiaeth

Croeso Cymru: Uwch Reolwr Ymchwil a Mewnwelediadau

## 2.4 Cyfeiriad post cyswllt

VisitEngland: VisitEngland, 3 Grosvenor Gardens, London, SW1W 0BD

VisitScotland: VisitScotland, Insight Department, Ocean Point One, 94 Ocean Drive, Edinburgh, EH6 6JH

Croeso Cymru: Croeso Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

## 2.5 Cyfeiriad e-bost cyswllt

VisitEngland: Richard.Nicholls@visitengland.org

VisitScotland: research@visitscotland.com

Croeso Cymru: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

## 2.6 Rhif ffôn cyswllt

VisitEngland: +44 207 578 1416

VisitScotland: +44 131 472 2222

Croeso Cymru: +44 300 061 6110

## 3. Cyflwyniad ystadegol

### 3.1 Disgrifiad data

Mae Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr yn darparu amcangyfrifon misol o faint a gwerth ariannol twristiaeth ddomestig dros nos, gan gynnwys nifer y nosweithiau a dreuliyd ar dwristiaeth dros nos. Mae'r arolwg yn mesur ymweliadau busnes a hamdden dros nos, ac yn casglu gwybodaeth am nodweddion y daith, megis hyd, modd trafnidiaeth, math o lety yr arhoswyd ynddo, gweithgareddau a wnaed a rheswm dros y daith, yn ogystal â gwybodaeth am y grŵp o deithwyr. Mae'r canlyniadau'n cael eu cynhyrchu'n fisol ac maen nhw hefyd yn cael eu cyfuno i roi amcangyfrifon chwarterol, blynyddol a thair blynedd. Rhennir y canlyniadau yn ôl daearyddiaeth, pwrpas yr ymweliad a ffactorau demograffig.

Yn 2019 a blynyddoedd cyn hynny cafodd canlyniadau'r arolwg eu dynodi yn ystadegau swyddogol. Oherwydd y newidiadau mewn methodoleg ac effaith pandemig COVID-19 ar ymddygiad twristiaeth a'r gallu i gasglu data am ymddygiad twristiaeth, defnyddiwyd 2020 fel blwyddyn dreialu, gan ganiatáu i'r fethodoleg newydd gael ei phrofi ac i wneud dadansoddiad ychwanegol. Ar gyfer 2021 mae canlyniadau'r arolwg wedi'u cofnodi yn ystadegau arbrofol. Y bwriad yw dychwelyd i statws ystadegau swyddogol yn y dyfodol.

### 3.2 System ddosbarthu

I fod yn daith dros nos gymwys rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:

- Yn cynnwys arhosiad o un noson o leiaf ym Mhrydain Fawr
- Nid i'w chymryd yn aml – mae hyn yn golygu ei bod yn digwydd yn llai aml nag unwaith yr wythnos

Mae hyn yn cyd-fynd â'r diffiniadau o daith dros nos a ddefnyddir gan Eurostat.

At ddibenion dadansoddi mae'r teithiau hyn yn cael eu rhannu yn ôl y prif reswm dros y daith. Defnyddir y dosbarthiadau canlynol:

- Tripliau Gwyliau Dros Nos Ddomestig ym Mhrydain Fawr - prif bwrpas y daith oedd ar gyfer gwyliau, pleser neu hamdden
- Teithiau VFR Dros Nos Ddomestig ym Mhrydain Fawr - prif bwrpas y daith oedd ar gyfer ymweld â ffrindiau a pherthnasau
- Teithiau Busnes Dros Nos Ddomestig ym Mhrydain Fawr - prif bwrpas y daith oedd busnes
- Teithiau Tramor Dros Nos Ddomestig ym Mhrydain Fawr - prif bwrpas y daith oedd ar gyfer arhosiad dros nos yn y DU fel rhan o daith dramor
- Teithiau Amrywiol Dros Nos Ddomestig ym Mhrydain Fawr - prif bwrpas y daith oedd ar gyfer unrhyw fath arall o daith nad yw wedi ei chwmpasu gan y dosbarthiadau eraill

### 3.2.1 Dosbarthiadau daearyddol

Ar gyfer dosbarthiad daearyddol defnyddir rhanbarthau safonol Prydain Fawr, fel y'u diffinnir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae rhanbarthau Cymru a'r Alban yn cael eu rhannu ymhellach i isranbarthau:

Yr Alban:

- Gogledd yr Alban – yn cynnwys awdurdodau lleol:
  - Dinas Aberdeen
  - Swydd Aberdeen
  - Yr Ucheldir
  - Moray
  - Ynysoedd Erch
  - Ynysoedd Shetland
  - Ynysoedd y Gorllewin (Na h-Eileanan Siar)
- De'r Alban – sy'n cynnwys awdurdodau lleol:
  - Dumfries a Galloway
  - Gororau'r Alban
- Dwyrain yr Alban – yn cynnwys awdurdodau lleol:
  - Angus
  - Dinas Caeredin
  - Dinas Dundee

- Dwyrain Lothian
- Fife
- Midlothian
- Perth a Kinross
- Gorllewin Lothian
- Gorllewin yr Alban – yn cynnwys awdurdodau lleol:
  - Argyll a Bute
  - Swydd Clackmannan
  - Dwyrain Swydd Ayr
  - Dwyrain Swydd Dunbarton
  - Dwyrain Swydd Renfrew
  - Falkirk
  - Dinas Glasgow
  - Inverclyde
  - Gogledd Swydd Ayr
  - Gogledd Swydd Lanark
  - Swydd Renfrew
  - De Swydd Lanark
  - De Swydd Ayr
  - Stirling
  - Gorllewin Swydd Dunbarton

Cymru:

- Canolbarth Cymru – yn cynnwys awdurdodau lleol:
  - Ceredigion
  - Powys
- Gogledd Cymru – yn cynnwys awdurdodau lleol:
  - Ynys Môn
  - Conwy
  - Sir Ddinbych
  - Sir y Fflint
  - Gwynedd
  - Wrecsam

- De-ddwyrain Cymru – yn cynnwys awdurdodau lleol:
  - Blaenau Gwent
  - Pen-y-bont ar Ogwr
  - Caerdydd
  - Caerffili
  - Merthyr Tudful
  - Sir Fynwy
  - Casnewydd
  - Rhondda Cynon Taf
  - Torfaen
  - Bro Morgannwg
- De-orllewin Cymru - yn cynnwys awdurdodau lleol:
  - Sir Gaerfyrddin
  - Sir Benfro
  - Castell-nedd a Phort Talbot
  - Abertawe

### 3.3 Cwmpas o ran sector

Mae'r arolwg ymhlith aelodau'r cyhoedd ac felly nid yw cwmpas o ran sector yn berthnasol yn yr achos hwn. Ond mae'n werth nodi bod yr ystadegau o'r arolwg yn cael eu defnyddio gan fusnesau yn y sector twristiaeth, a'r rhai sy'n ddibynnol ar dwristiaeth

### 3.4 Cysyniadau a diffiniadau ystadegol

**Nifer:** Amcangyfrif o'r hyn y byddai'r nifer gros o deithiau dros nos a wnaed gan y boblogaeth, o fewn y cyfnod amser a pharamedrau eraill a bennir, pe bai'r sampl cwota yn gynrychioliadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr.

**Gwerth:** Amcangyfrif o'r hyn y byddai cyfanswm y gwariant sy'n ymwneud â nifer yr ymweliadau dros nos a wneir gan y boblogaeth, o fewn y ffrâm amser a pharamedrau eraill a bennir, pe bai'r sampl cwota yn gynrychioliadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr. Mae'r gwariant yn cynnwys cost archebion a dalwyd ymlaen llaw, eitemau eraill a gafodd eu prynu at bwrpas y daith a thaliadau am filiau yn ymwneud â'r daith a ddaeth i law wedi'r ymweliad. Mae'r gwariant hefyd yn cynnwys unrhyw filiau sy'n cael eu talu ar ran yr ymatebwr, fel unrhyw beth y talwyd amdano gan gyflogwr ar gyfer taith fusnes. Tanwydd a brynwyd yn ystod y daith yn unig a gynhwysir. Bwyd sy'n cael ei fwyta yn ystod y daith yn unig a gynhwysir.



**Nosweithiau gwely:** Amcangyfrif o'r hyn a fyddai nifer gros y nosweithiau a dreuliwyd ar deithiau dros nos gan y boblogaeth, o fewn y cyfnod amser a pharamedrau eraill a bennir, pe bai'r sampl cwota yn gynrychioliadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr.

**Cyfansoddiad y grŵp:** Nifer yr oedolion a'r plant yn y grŵp a ymgwymerodd â phob taith dros nos.

**Lleoedd yr ymwelwyd â nhw:** Enw'r pentref, y dref neu'r ddinas yr ymwelwyd â hi, neu'r pentref, y dref neu'r ddinas agosaf. Mae Parciau Cenedlaethol yn cael eu trin fel lle a gellir eu dewis o'r rhestr o leoedd. Gofynnir i'r ymatebwyr ddewis y 'prif le' y gwnaethant ymweld ag ef ac yna unrhyw leoedd eraill y gwnaethant ymweld â nhw. Maent yn cael cyfarwyddyd i gynnwys lleoedd lle'r oeddent yn aros dros nos yn unig.

**Math o le yr ymwelwyd ag ef:** Dosbarthiad ymatebwyr o'r math o le yr ymwelwyd ag ef i un o'r categorïau canlynol:

- Dinas/tref fawr
- Tref fechan
- Pentref
- Cefn gwlad wledig
- Cyrchfan neu dref glan môr
- Arfordir glan môr – traeth
- Arfordir arall
- Arall

### 3.5 Uned ystadegol

Mae'r data'n cael ei gasglu am nifer y teithiau dros nos a gymerwyd gan oedolion unigol (16+ oed). Gall oedolyn penodol fod wedi mynd ar fwy nag un daith dros nos yn y cyfnod amser a bennir. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei chasglu am bresenoldeb unrhyw blant ar y teithiau dros nos hyn, gan ganiatáu i amcangyfrifon gael eu cynhyrchu am deithiau oedolion a phlant, ond nid yw plant yn cael eu samplo.

Mae'r amcangyfrifon o faint, gwerth a nifer y nosweithiau o deithiau a gyflwynir yn cael eu grosio i gyfanswm poblogaeth y ddaearyddiaeth dan sylw (h.y. Prydain Fawr, Lloegr, Cymru neu'r Alban). Mae hyn yn dangos beth fyddai gwerthoedd, maint a nifer y nosweithiau ar gyfer cyfanswm y boblogaeth pe byddai sampl y cwota yn gynrychioliadol o boblogaeth gyfan Prydain Fawr.

### **3.6 Poblogaeth ystadegol**

Oedolion 16+ oed sy'n byw yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r arolwg hefyd yn casglu manylion unrhyw blant sy'n rhan o deithiau dros nos ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigyrau gros amcangyfrifedig ar gyfer maint, gwerth a nifer y nosweithiau.

### **3.7 Ardal gyfeirio**

Mae'r holl ymatebwyr yn byw ym Mhrydain Fawr (Lloegr, Yr Alban neu Gymru). Cesglir data am deithiau dros nos i leoedd o fewn Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Nid yw Prydain Fawr yn cynnwys dibyniaethau coron Ynys Manaw nac Ynysoedd y Sianel ac ni chesglir data am deithiau i'r ardaloedd hyn.

Nid yw data a gesglir am deithiau i Ogledd Iwerddon yn unig wedi'i gynnwys yn unrhyw un o'r adroddiadau ar gyfer GBTS, ond mae'n cael ei rannu gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol er mwyn gallu ei gyfuno â data o arolwg cyfatebol a gynhaliwyd gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Os yw taith yn cynnwys arhosiad dros nos yng Ngogledd Iwerddon ac un neu fwy o leoliadau o fewn Prydain Fawr mae'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r lleoedd o fewn Prydain Fawr yn cael ei chynnwys yn adroddiadau GBTS. Gan fod un o'r ffyrdd o roi gwybod am ddata GBTS yn cael ei rannu gan nodweddion sy'n gysylltiedig â'r prif le yr ymwelwyd ag ef mae'n bosibl y gall nifer fach o deithiau gyfrannu at ddata Prydain Fawr heb fod â 'prif le' o fewn Prydain Fawr.

### **3.8 Cwmpas amser**

Mae'r ystadegau'n ymdrin â'r cyfnod amser rhwng Ebrill 2021 a diwedd Rhagfyr 2021. Disgrifir cyfresi amser hŷn o dan Cymharedd dros amser.

### **3.9 Cyfnod sylfaen**

Nid yw hwn yn berthnasol.

## **4. Prosesu ystadegol**

### **4.1 Ffynhonnell y data**

Mae'r data'n seiliedig ar arolwg.

Poblogaeth yr arolwg yw oedolion 16+ oed ac yn byw yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Fodd bynnag, caiff gwybodaeth ei chasglu am unrhyw blant sy'n bresennol ac felly mae'r amcangyfrifon sy'n deillio o hynny yn cynnwys oedolion a phlant.

#### 4.1.1 Dylunio sampl

Defnyddir dull di-debygolrwydd, gyda haeniad yn ôl gwlad (Lloegr, yr Alban a Chymru) a chwotâu wedi'u gosod o fewn pob gwlad. Y prif reswm dros ddull di-debygolrwydd yw effeithlonrwydd casglu data o fewn y fethodoleg ar-lein.

Yn gyffredinol, mae dulliau arolygu tebygolrwydd yn ddrutach ac yn cymryd mwy o amser i'w gweinyddu na dulliau di-debygolrwydd. Mae cost dulliau tebygolrwydd hefyd wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd lefelau uwch o ddiffyg ymateb. Os yw cyfraddau ymateb yn isel, mae'r potensial ar gyfer rhagfarn yn y sampl tebygolrwydd yn uwch. Mae hyn yn arbennig o wir os yw proffil pobl nad ydynt yn ymateb yn systematig wahanol i'r rhai sydd yn ymateb.

Er bod samplu tebygolrwydd yn caniatáu ar gyfer technegau ystadegol fel ysbeidiau hyder a lwfansau gwallau i ddilysu'r canlyniadau, nid yw hyn yn bosibl gyda sampl di-debygolrwydd. O'r herwydd, ni ellir gwneud amcangyfrifon cadarn o ymddygiad y boblogaeth gyfan gyda sampl di-debygolrwydd. Defnyddiwyd cwotâu a phwysoliadau i wneud y sampl mor gynrychioliadwy o boblogaeth oedolion Prydain Fawr â phosibl o fewn cyfyngiadau sampl di-debygolrwydd.

Rhwng 2005 a 2019 cynhaliwyd GBTS gan ddefnyddio omnibws wyneb yn wyneb yn y cartref. Mae'n bwysig nodi, er bod y fethodoleg hon yn cynnwys dewis ar hap o ardaloedd, roedd yn fethodoleg ddi-debygolrwydd gan ei fod yn ymwneud â defnyddio cwotâu o fewn yr ardaloedd hyn i gyflawni'r sampl ddymunol. Yn ystod 2016 i 2019 gwnaed gwaith i drosglwyddo'r GBTS i fethodoleg ar-lein ac i ddeall effaith bosibl symud GBTS i fethodoleg ar-lein. Yn 2021 defnyddiodd GBTS sampl di-debygolrwydd panel ar-lein.

Roedd noddwyr yr arolwg yn pwyso a mesur manteision sampl tebygolrwydd yn erbyn yr anfanteision ac yn gwneud y penderfyniad bod methodoleg samplu heb debygolrwydd yn gweddu'n well i'w hanghenion a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae canllawiau Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth (GSR) ar adrodd canlyniadau pan ddefnyddir samplu cwota wedi'u dilyn cymaint â phosibl, sef:

- Mae'r nodweddion a ddefnyddir i osod cwotâu wedi cael eu hystyried yn ofalus. Gwnaed gwaith ychwanegol yn 2021 i ymchwilio i weld a oes unrhyw ogwydd posib yn y sampl a gasglwyd, ac os felly, maint y gogwydd hwn. Rhan allweddol o'r dadansoddiad hwn oedd cymharu'r sampl a gasglwyd i ystadegau cadarn sydd ar gael yn gyhoeddus er mwyn penderfynu a yw unrhyw grwpiau wedi'u tangynrychioli neu eu gorgynrychioli yn yr arolygon. Dangosodd y dadansoddiad hwn y gellir cymharu data'r arolwg yn fras ar gyfer presenoldeb plant ar yr aelwyd, ethnigrwydd, lefel addysg, perchnogaeth ceir, hunaniaeth rywiol, oedran (hyd at 75) a statws cyflogaeth.

- Defnyddiwyd cwotâu plethedig pan fo'n ymarferol. Mae cwotâu oedran a rhyw wedi'u plethu, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o gelloedd cwota
- Bwriad y model pwysoli yw addasu'r canlyniadau ar gyfer peidio ag ymateb. O ganlyniad i'r dadansoddiad a ddisgrifir uchod am ogwydd posibl yn y sampl a gasglwyd cytunwyd y byddai'r categorïau pwysoli ar gyfer oedran yn cael eu haddasu ar gyfer 2021 ymlaen, fel bod y grŵp oedran hynaf (65+ cyn hynny) wedi'i rannu i 65-74 a 75+.
- Mae'r adrodd, gan gynnwys yr adroddiad ansawdd cefndir hwn, yn nodi pam y defnyddiwyd samplu cwota
- Mae'r adrodd, gan gynnwys yr adroddiad ansawdd cefndir hwn, yn nodi sut y dylid dehongli'r canlyniadau

Mae'r canllawiau GSR ar gael yma: [Quota-sampling-guidance-4.pdf \(civilservice.gov.uk\)](https://www.civilservice.gov.uk/quota-sampling-guidance-4.pdf)

#### 4.1.2 Poblogaeth

Daw gwybodaeth am y boblogaeth o'r ystadegau cenedlaethol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer pob gwlad. Mae'r rhain yn cael eu diweddarau'n flynyddol. Daw ystadegau poblogaeth o 2 ffynhonnell wahanol:

- Roedd ystadegau ar gyfanswm y boblogaeth yn ôl gwlad ddatganoledig, a'r rhaniad yn ôl rhanbarth, rhyw ac oedran yn dod o amcangyfrifon poblogaeth canol 2018 a gynhyrchwyd gan yr ONS. Dyma'r ystadegau diweddaraf oedd ar gael ar adeg cwblhau manyleb y sampl. Mae'r ystadegau i'w gweld yma: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2018>
- Daeth ystadegau ar y radd gymdeithasol fras o'r arolwg poblogaeth flynyddol a gynhyrchwyd gan yr ONS. Y cyfnod amser a ddefnyddiwyd oedd Gorffennaf 2018 – Gorffennaf 2019. Dyma'r ystadegau diweddaraf oedd ar gael ar adeg cwblhau manyleb y sampl. Mae'r ystadegau i'w gweld yma: <https://www.nomisweb.co.uk/datasets/apsnew>.
  - Gan fod y Dosbarthiad Cymdeithasol-economaidd Ystadegau Cenedlaethol (NS-SEC) yn safon gytûn yn ystadegau swyddogol y DU, at ddiben cwotâu a phwysoli, caiff ystadegau poblogaeth ar gyfer NS-SEC o'r Arolwg Poblogaethau Blynyddol eu mapio i'r radd gymdeithasol fras a gesglir yn arolygon GBTS a GBDVS. Argymhellodd yr ONS ystyried a allai defnyddio NS-SEC fel set o gwestiynau fod yn fwy priodol. Fodd bynnag, gan fod NS-SEC yn gofyn i 4 cwestiwn o leiaf gael eu gofyn i'w penderfynu, cytunwyd gyda'r Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol nad oes digon o le i ofyn i NS-SEC yn GBTS a GBDVS.

#### 4.1.3 Ffrâm samplu

- Caiff data ei gasglu drwy arolwg ar-lein gan ddefnyddio sampl o unigolion sydd wedi'u cofrestru gyda phaneli arolygon ar-lein.

- Ceir gafael ar yr ymatebwyr trwy Qualtrics, plattform ar-lein sy'n cyfuno nifer o ddarparwyr panel achrededig ESOMAR. Defnyddir cyfuniad o 4 panel i liniaru yn erbyn y risg o ogwydd penodol i'r panel.
- Mae gan bob un o ddarparwyr y panel ogwydd bach yng nghyfanswm poblogaeth eu panel. Fodd bynnag, mae defnyddio cwotâu yn lliniaru yn erbyn y gogwydd hwn.
- Mae'r cyfuniad o baneli yn gyson ar gyfer pob mis o waith maes er mwyn sicrhau bod y sampl yn sefydlog.
- Oherwydd tanberfformio panel, cafodd 1 o'r paneli hyn ei ddisodli gan ddewis arall ar 6 Hydref 2021. Mae hyn yn golygu bod cyfansoddiad y panel ychydig yn wahanol ar gyfer data a gasglwyd cyn 6 Hydref 2021 ac ar ôl 6 Hydref 2021.
- Defnyddir cymal gwahardd 3 mis i sicrhau na all unrhyw un ymatebwr unigol gwblhau'r arolwg yn rhy aml.
- Mae gan bob panel eu gweithdrefnau eu hunain, yn unol â chanllawiau ESOMAR<sup>1</sup> ar gyfer sicrhau bod y wybodaeth sydd ganddynt am bob panelydd yn gyfredol ac yn gyflawn. Ar ben hynny, mae pob newidyn cwota yn cael eu casglu o fewn yr arolwg i sicrhau bod ymatebwyr yn cael eu categoreiddio'n briodol.
- Yn ystod yr adolygiad ansawdd data, mae Qualtrics yn darganfod ac yn cael gwared ar unrhyw ymatebwyr y canfyddir eu bod yn ddyblygiadau ar draws paneli yn seiliedig ar eu cyfeiriadau IP, data lleoliad (hydred/lledred), data demograffig a phatrymau ymatebwyr. Hefyd, mae'r paneli yn cyflawni eu gwiriadau datddyblygu eu hunain yn erbyn y tri phanel arall.

#### 4.1.4 Cwotâu

Maint y sampl blynyddol yw 60,000 o ymatebwyr. Mae hyn yn cynnwys yr holl ymatebwyr, p'un a ydynt wedi mynd ar daith dros nos gymwys ai peidio. Mae'r 60,000 hwn wedi'i rannu'n anghymesur yn ôl gwlad, er mwyn caniatáu meintiau seiliau dadansoddi mwy ar gyfer Cymru a'r Alban:

- Lloegr – 42,000
- Yr Alban – 9,000
- Cymru – 9,000

Mae samplu cwota yn rheoli cyfansoddiad y sampl a gyflawnwyd yn derfynol 'yn ôl y cynllun'. Gosodir targedau samplu o fewn y cwota ar gyfer pob categori cwota ac ar ôl cyrraedd y targed hwn, ni fydd unrhyw gyfweliadau pellach yn y categori hwnnw'n cael eu casglu.

Caiff y cwotâu eu gosod yn seiliedig ar ystadegau cenedlaethol am boblogaeth oedolion Prydain Fawr, fel y'u disgrifir uchod (o dan 'poblogaeth' yn adran 4.1.2). Mae ymatebwyr yng Nghymru a'r

<sup>1</sup> <https://esomar.org/code-and-guidelines/icc-esomar-code>

Alban yn cael eu gorsamplu i sicrhau bod y meintiau sylfaenol sy'n deillio o hynny yn caniatáu dadansoddi'n gadarn.

O fewn pob gwlad mae cwotâu wedi'u gosod ar oedran x rhywedd (plethedig), gradd gymdeithasol fras a rhanbarthau Lloegr.

Mae cwotâu caled wedi'u gosod ar gyfer pob 4 wythnos o gyfweld, fel yr isod:

RHANBARTH	%	Targed GBTS		Oedran/Rhywedd	%	Targed GBTS
Lloegr	70%	3232		Dynion 16-24	7%	316
Yr Alban	15%	692		Dynion 25-34	8%	388
Cymru	15%	692		Dynion 35-44	8%	356
<b>Cyfanswm</b>	<b>100%</b>	<b>4616</b>		Dynion 45-54	8%	388
Dwyrain Canolbarth Lloegr	6%	280		Dynion 55-64	7%	336
Dwyrain Lloegr	8%	356		Dynion 65+	10%	476
Llundain	11%	504		Menywod 16-24	6%	296
Gogledd-ddwyrain	3%	156		Menywod 25-34	8%	384
Gogledd-orllewin	9%	420		Menywod 35-44	8%	360
De-ddwyrain Lloegr	11%	528		Menywod 45-54	9%	400
De-orllewin Lloegr	7%	328		Menywod 55-64	8%	348
Gorllewin Canolbarth Lloegr	7%	340		Menywod 65+	12%	568
Swydd Efrog a'r Humber	7%	316		<b>Amcangyfrif o radd gymdeithasol</b>		
<b>Cyfanswm</b>	<b>70%</b>	<b>3232</b>		AB	12%	544
				C1	30%	1372
				C2	23%	1040
				DE	36%	1660

Bydd cwotâu'n cael eu monitro'n wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni mor gyfartal â phosib ar draws pob cyfnod o 4 wythnos.

## 4.2 Amllder casglu data

Cynhelir casglu data drwy gydol y pedair neu bum wythnos o fis penodol. Adroddir data ar Sail mis calendr, yn chwarterol ac yn flynyddol. Mae rhywfaint o ddadansoddiad hefyd yn defnyddio dosbarthiadau cyfartalog cyfnod treigl o 12 mis, y flwyddyn hyd yn hyn a 3 blynedd.

Gofynnir i bob ymatebwr am unrhyw deithiau dros nos y maent wedi'u cymryd yn y 4 wythnos lawn cyn eu dyddiad cyfweld, e.e. os bydd cyfweliad yn cael ei gwblhau ddydd Mercher 4 Awst 2021, bydd yr ymatebydd yn ateb am deithiau dros nos a gymerwyd rhwng 5 Gorffennaf 2021 a 1 Awst 2021. Adroddir data o ran y cyfnod 'cyfeirio' hwn, yn hytrach na dyddiad y cyfweliad.

Mae pob wythnos lawn o fewn y flwyddyn yn cael ei neilltuo i un mis adrodd. Mae'n cael ei ddyrannu i'r mis adrodd sydd â'r nifer fwyaf o ddyddiau ynddo o'r wythnos honno. Felly, mae rhai misoedd adrodd yn cynnwys 4 wythnos, a rhai yn cynnwys 5 wythnos. Yn yr enghraifft a ddisgrifir

uchod bydd y data yn dod o dan gyfnod adrodd 'Gorffennaf 2021' gan fod y rhan fwyaf o'r wythnos a ddechreuodd ar 26 Gorffennaf 2021 wedi disgyn ym mis Gorffennaf.

Er mwyn cynorthwyo defnyddioldeb y canlyniadau gan ddefnyddwyr, mae ffactor cywiro, o'r enw'r Ffactor Llyfnu Tymhorol wedyn yn cael ei gymhwyso i 'drosi' y data ar gyfer y cyfnod adrodd o 4 neu 5 wythnos yn gyfnod 'mis calendr'. Mae'r ffactor cywiro hwn yn ystyried nifer y dyddiau mewn cyfnod adrodd o 4 neu 5 wythnos a nifer y dyddiau yn y mis calendr dan sylw. Mae'r ffactor cywiro hwn yn cael ei gymhwyso'n gyfartal i bob taith a gymerwyd o fewn y cyfnod. Fe'i cymhwysir i gynyddu cymharu data ar draws blynnyddoedd, gan gael gwared ar yr elfen a yw mis yn cael ei gynrychioli gan gyfnod o 4 neu 5 wythnos. Mae'n bwysig nodi bod data ar gyfer y cyfnod adrodd yn dal i gael ei gymryd dros gyfnod o 4 neu 5 wythnos. Ceir mwy o fanylion am y Ffactor Llyfnu Tymhorol yn 4.5.3.

### 4.3 Casglu data

Mae casglu data ar-lein, trwy Qualtrics, platfform ar-lein sy'n cyfuno nifer o ddarparwyr panel achrededig ESOMAR. Mae'r arolwg yn agnostig o ran dyfais, sy'n golygu y gall ymatebwyr ei gwblhau ar gyfrifiadur desg, gliniadur, llechen neu ddyfais symudol.


Cyfunir casglu data ar gyfer GBTS gyda chasgliad ar gyfer Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr (GBDVS). Er bod GBDVS yn mesur ymweliadau dydd, mae GBTS yn mesur teithiau dros nos. Yn 2019 a'r blynnyddoedd cyn hynny, cynhaliwyd y ddau arolwg fel arolygon annibynnol ar wahân gan ddefnyddio gwahanol ddulliau arolygu. Er mwyn caniatáu mwy o reolaeth ac i gasglu gwybodaeth fwy perthnasol a chymharol cyfunwyd y ddau arolwg. Mae'r ddau arolwg wedi'u cyfuno'n un sgrïpt, gyda dau lwybr posibl.

Mae gan y sgrïpt 5 adran (mae'r holiadur llawn i'w weld yn atodiad y ddogfen hon):

- Demograffeg y cwota
- Teithiau cyffredinol
- GBTS
- GBDVS
- Demograffeg derfynol

Gofynnir i'r holl ymatebwyr ateb adrannau 1,2 a 5. Dyrennir i adrannau 3 a 4 gan y sgrïpt ar sail lleiaf llawn, ar ôl i adran 1 gael ei gwblhau, ond cyn i unrhyw ddata gael ei gasglu ar gyfer adran 2. Mae hyn yn golygu y gellir dyrannu ymatebwr i GBTS, hyd yn oed os nad yw wedi bod ar unrhyw deithiau dros nos cymwys yn y cyfnod cyfeirio. Mewn achos o'r fath byddai cwestiynau adrannau 1

a 2 yn cael eu gofyn i'r ymatebwr, ac yna byddai'n neidio i adran 5. Mae hyn yn sicrhau nad oes gogwydd yn y sampl oherwydd yr ymatebion i'r adran gyffredinol.



#### 4.3.1 Profi gweithdrefnau a systemau casglu data

Fel rhan o sefydlu'r arolwg GBDVS a GBTS cyfun cafodd y sgrïpt ei phrofi'n drylwyr i sicrhau bod yr holl agweddau llwybro a dilysu data yn gweithio fel y dymunwyd. Cynhaliwyd treial byw hefyd i ganiatáu i'r sgrïptiau gael eu profi'n llawn. Cynhaliwyd y treial rhwng 23 Ebrill a 20 Mai 2020. Cwblhawyd 3,126 o arolygon treialu ar gyfer GBTS.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer y treial yn ystod cyfnod clo cyntaf COVID-19 yn y DU. Gan fod y cyfnod clo yn cyfyngu ar symudiadau ac nid oedd yn caniatáu teithiau hamdden, gwnaed rhai newidiadau i'r sgrïpt dreialu er mwyn caniatáu casglu data dibynadwy a defnyddiol:

- Diwygiwyd y cyflwyniad i adlewyrchu'r ffaith na fyddai'r ymatebwyr wedi cymryd unrhyw ymweliadau dros nos yn y pedair wythnos flaenorol a chafodd y cyfeiriad at gyfnod clo COVID-19 ei gynnwys
- Diwygiwyd y dyddiadau cyfeirio er mwyn gofyn i bob ymatebwr am deithiau yn yr un cyfnod – rhwng 17 Chwefror a 15 Mawrth – dewiswyd y cyfnod hwn gan ei fod yn cynnwys hanner tymor ysgol Chwefror 2020, i wneud y gorau o'r achosion tebygol o deithiau dros nos, ac felly faint o ddata a gasglwyd
- Gwnaed mân newidiadau i eiriad y cwestiwn i adlewyrchu'r cyfnodau penodedig y cyfeirir atynt yn yr arolwg

Dadansoddwyd y data treialu i werthuso dyluniad yr arolwg. Cynhwyswyd yr elfennau canlynol yn y dadansoddiad:

- Dadansoddiad o'r sampl a gyflawnwyd i sicrhau ei fod yn gytbwys
- Y dyraniad ar hap i naill ai GBTS neu GBDVS



- Y llwybro yn sgrïpt yr arolwg
- Hyd yr arolwg
- Y gyfradd adael
- Nifer yr achosion o ymweliadau cymhwyso, gyda chymariaethau'n cael eu gwneud i fersiynau blaenorol yr arolwg
- Roedd y rhanbarth preswyl a nodwyd gan ymatebwyr, o'i gymharu â'r lle penodol a ddewiswyd ganddynt yn byw ynddo
- Nifer y nosweithiau a dreuliwyd ar daith
- Gwariant y trip - gan ystyried maint y grŵp a nifer y nosweithiau
- Maint y grŵp
- Math o lety
- Dull cludiant a ddefnyddiwyd
- Dichonoldeb y lleoedd yr ymwelwyd â nhw os dewiswyd mwy nag un lle

Ni wnaed unrhyw newidiadau i sgrïpt yr arolwg, gweithdrefn casglu data na systemau o ganlyniad i'r treial.

#### 4.3.2 Gwiriadau a wneir ar y cam cofnodi data

Gan fod yr arolwg yn defnyddio methodoleg ar-lein mae'r holl wiriadau ar y cam cofnodi data wedi'u cynnwys yn rhan o sgrïpt yr arolwg. Mae'r gwiriadau canlynol yn yr holiadur:

- Q003 – man preswyl – rhaid i'r ymatebwyr ddewis o gwymplen sy'n cynnwys 61,442 o ddinasoedd, trefi a phentrefi yn y DU
- Q005 – oedran yr ymatebwr – mae unrhyw ymatebwr 15 oed neu iau yn cael eu sgrinio allan o'r arolwg yn awtomatig
- TS05a – nifer y nosweithiau a dreulir ar daith – rhaid i'r ymatebwyr nodi rhif cyfan rhwng 1 a 364.
- TS07 – y prif le yr ymwelwyd ag ef – rhaid i'r ymatebwyr ddewis o gwymplen sy'n cynnwys 61,442 o ddinasoedd, trefi a phentrefi yn y DU.
- TS10 – nifer y llefydd eraill yr arhoswyd ynddynt – rhaid i'r ymatebwyr nodi rhif cyfan rhwng 1 a 99
- TS11 – llefydd eraill yr ymwelwyd â nhw – rhaid i'r ymatebwyr ddewis o gwymplen sy'n cynnwys 61,442 o ddinasoedd, trefi a phentrefi yn y DU
- TS15 – nosweithiau y treuliwyd mewn llefydd eraill – rhaid i'r ymatebwyr nodi rhif cyfan rhwng 1 a 99 am bob lle arall yr ymwelwyd ag ef. Os yw cyfanswm y nosweithiau a gofnodwyd yn fwy na'r rhif a nodwyd yn TS05a dangosir neges gwall sy'n gofyn iddynt wirio a golygu'r ffigurau y maent wedi'u nodi

- TS21 – maint y grŵp – caniateir uchafswm o 50 o bob math o aelod o'r grŵp
- TS30a – maint y grŵp y mae'r ymatebwr yn rhoi gwybodaeth am wariant ar eu cyfer – nid yw'r ymatebwyr yn gallu nodi nifer mwy o oedolion neu blant yma nas sydd wedi'u nodi yn TS21. Os ydyn nhw'n gwneud hynny, dangosir neges gwall yn gofyn iddyn nhw wirio a golygu'r ffigyrau y maen nhw wedi'u nodi
- TS31 – gwariant ar y pecyn – Os yw'r swm sy'n cael ei nodi yn fwy na £5,000 mae neges rybuddio yn cael ei dangos: "Fe ddywedoch chi eich bod wedi gwario mwy na £5,000 ar y pecyn, gwiriwch fod hyn yn gywir". Caniateir i'r ymatebwr fwrw ymlaen â dim gwariant, neu â gwariant o fwy na £5,000, gan fod y rhain yn senarios posib.
- TS32 – gwariant ar elfennau heblaw am y pecyn ar daith - os nodir sero ar gyfer yr holl categorïau gwariant dangosir neges rybuddio: "Rydych chi wedi dweud na wnaethoch chi wario unrhyw beth ar eich taith. Ydy hyn yn gywir? Os na, newidiwch eich atebion". Caniateir i'r ymatebwr fwrw ymlaen gyda dim gwariant, gan fod hyn yn senario bosibl.
- TS32 – gwariant ar elfennau nad ydynt yn elfennau pecyn o'r daith – os yw gwerth yn fwy, yna caiff £5,000 ei nodi ar gyfer unrhyw un o'r categorïau gwariant unigol dangosir neges rybuddio i'r ymatebwr: "Fe wnaethoch chi gofrestru mwy na £5000 ar gyfer eitem. Ydy hyn yn gywir? Os na, newidiwch eich atebion". Caniateir i'r ymatebwr fwrw ymlaen â gwariant sy'n fwy na £5,000, gan fod hyn yn senario posib

Gan fod yr arolwg ar-lein mae'r sgrïpt wedi'i chynllunio fel na all ymatebwr barhau i'r cwestiwn nesaf oni bai bod ymateb yn cael ei roi. Fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o gwestiynau opsiwn 'ddim yn gwybod' i sicrhau bod pob ymatebwr yn gallu ateb yn wirionedd. Manylir ar y weithdrefn ar gyfer ymatebion 'ddim yn gwybod' yn adran 4.4.

#### 4.4 Dilysu data

Mae data'n cael ei lawrlwytho o blatfform arolwg Qualtrics yn fisol. Mae llawer o wiriadau ar y data'n cael eu gwneud trwy system awtomataidd sy'n seiliedig ar reolau. Fodd bynnag, yn y ddwy don gyntaf o waith maes cafodd pob un o'r gwiriadau awtomataidd hyn eu gwirio â llaw i sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir.

Mae'r broses ar gyfer dilysu data yn dilyn 7 cam allweddol:

1. Cael gwared ar unrhyw ymatebwyr ag ymatebion anghymwys, megis y cyfuniad o oedran a lefel addysg, neu pan fo ganddynt lawer iawn o ddata coll. Defnyddir rheolau awtomataidd i dynnu sylw at a gwrthod unrhyw gofnodion nad ydynt yn cyrraedd safonau gofynnol. Mae nifer y cofnodion a wrthodwyd yn cael eu monitro'n fisol.
2. Cael gwared ar unrhyw ymatebwyr sy'n rhoi gwybodaeth ymweld anghymwys, fel dweud eu bod wedi dychwelyd o sawl taith dros nos ar yr un dyddiad.
3. Ailgodio ymatebion 'ddim yn gwybod' i 'yn eisiau' ar gyfer cwestiynau penodol (sy'n gysylltiedig yn bennaf â gwariant). Caiff y gwerthoedd coll hyn eu trin wedyn drwy'r broses briodoli a nodir yn 4.5.

4. Cymhwyso 'Ffactor Cywiro Taith' i gyfrif am unrhyw deithiau a gafodd eu cymryd o fewn y cyfnod cyfeirio, ond na chawsant eu hadrodd yn fanwl. I leihau hyd yr arolwg, ac felly'r baich ar yr ymatebwr, ac ansawdd y data a gesglir, gosodir terfyn ar nifer y teithiau y gofynnir i bob ymatebwr unigol ddarparu gwybodaeth fanwl amdanynt. Y terfyn hwn yw 3 taith. Mae'n bosibl y gallai ymatebwr unigol fod wedi cymryd mwy na 3 thaith yn y cyfnod y gofynnwyd amdano, er bod hyn yn brin. Mae'r Ffactor Cywiro Taith yn cyfrif am hyn. Mae'n cael ei gyfrifo drwy rannu nifer y teithiau cymwys yn ôl nifer y teithiau a adroddir ac fe'i cymhwysir i bob cofnod ymatebwr (a eglurir yn fanylach yn adran 4.5.3). Mae'n ffactor o'r amcangyfrifon terfynol o nifer a gwerth.0
5. Trosi data o'r cwestiynau gwariant i wariant 'fesul oedolyn' fel y gellir defnyddio rheolau dilysu data a chapiau ar sail debyg i'w gilydd. At ddiben y cyfrifiadau hyn rydym yn cyfrif gwariant plant fel hanner oedolyn, felly rydym yn rhannu'r gwariant a adroddwyd gan 'oedolyn cyfatebol' gan gyfanswm y rhai a adroddwyd ar [nifer yr oedolion + 1/2 \* nifer y plant a adroddwyd arnynt]. Mae mwy o wybodaeth am sut mae data gwariant yn cael ei drin i'w weld yn adran 4.5.3.0
6. Yna cymhwysir capiau ac ail-godio ar y data gwariant 'fesul oedolyn':
  - a. Capiu ar rai newidynnau i leihau effaith allanolion pan fydd defnyddwyr yn edrych yn fwy manwl ar yr is-setiau llai o'r data
  - b. Ailgodio gwerthoedd gwario sero i 'yn eisiau' pan fo digon o reswm i gredu y byddai gwariant wedi digwydd
  - c. Nodi unrhyw werthoedd coll gyda chanolrif fesul gwariant cyfatebol oedolion ar gyfer y mis hwnnw
7. Capiu ac ail-godio ar faint parti a nifer y llefydd yr ymwelwyd â nhw i gyfyngu ar effaith pan fydd defnyddwyr yn edrych yn fwy manwl ar is-setiau llai o'r data. Defnyddir rheolau penodol ar gyfer pryd mae data'n cael ei gapio a'r lefel y mae'n cael ei gapio arno (disgrifir hyn yn 4.5.1).

Mae'n bwysig nodi, pan fo swm yn cael ei nodi gan ymatebwr, mai dim ond cael ei gapio bydd y swm hwnnw, ni fydd byth yn cael ei ail-godio i fod 'yn eisiau' neu 'wedi'i nodi'. Pwrpas y capiau yw lleihau effaith allanolion pan fydd y data'n cael ei ddadansoddi, yn enwedig ar lefel is-grŵp.

Mae nifer y cofnodion sy'n cael eu capio neu eu tynnu oddi yno am fod yn anghymwys yn cael ei fonitro'n fisol ac yn cael ei adrodd yn y ddogfen hon o dan 4.5.0

## 4.5 Crynhoi data

### 4.5.1 Capiu a phriodoli

Fel y'i disgrifiwyd mewn 4.4, mae capiau a phriodoli yn digwydd mewn 3 achos;

- pan fydd 'capiau' yn cael eu gweithredu ar ddata (i leihau effaith allanolion),

- pan fydd data coll yn cael ei ddisodli (i sicrhau data cadarn ac felly ansawdd y data), a
- pan fydd data dim gwariant yn cael ei ddisodli (pan fo digon o reswm i gredu y byddai gwariant wedi digwydd)

Pan fo data gwariant coll yn cael ei ddisodli defnyddir proses dau gam:

- Pennir gwerth sero i gyfran ohonynt. Penderfynir ar y gyfran hon gan gyfran y teithiau dilys sydd â gwerth sero, h.y. os oes gan 10% o ymweliadau dilys ymateb sero, mae 10% o achosion coll yn cael ymateb sero
- Pennir gwerth canolrif di-sero i'r teithiau coll sy'n weddill o'r teithiau eraill yn y mis hwnnw

Dyma'r capiau a'r priodoliadau sy'n cael eu cymhwyso:

- TS05 – mae cyfanswm y nosweithiau wedi'u capio ar 30 ar gyfer pob math o daith. Pwrpas hyn yw cyfyngu ar effeithiau unrhyw deithiau anarferol o hir, yn enwedig wrth edrych ar is-setiau o'r data. Mae rhai capiau eraill yn cael eu cymhwyso ar gyfer mathau penodol o deithiau:
  - Pan mai prif bwrpas y daith oedd arhosiad dros nos yn y DU fel rhan o daith dramor (OT3=4) mae nifer y nosweithiau'n cael ei gapio ar 4. Mae hyn oherwydd bod data cynnar a gasglwyd yn awgrymu bod rhai ymatebwyr yn drysu, er gwaethaf esboniadau yn nhestun yr arolwg, ac yn nodi hyd lawn eu teithiau, gan gynnwys nosweithiau a dreuliwyd dramor. Dewiswyd 4 fel y cap gan fod hyn yn caniatáu hyd at 2 noson cyn teithio dramor a hyd at 2 noson ar ôl dychwelyd o dramor.
- TS11 - enwau llefydd eraill yr ymwelwyd â nhw. Os yw ymatebwr yn nodi'r un lle yn union mewn sawl blwch, mae nifer y llefydd yr ymwelwyd â nhw yn cael ei addasu i 1. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth eu bod wedi camddarllen y cwestiwn am faint o lefydd y buont yn ymweld â nhw ac mewn gwirionedd dim ond un pentref, tref neu ddinas y buont ynddi fel rhan o'r daith.
- TS15 – nifer y nosweithiau a dreuliwyd ym mhob lle. Os yw cyfanswm y nosweithiau'n cael eu capio yn ymatebion TS05 caiff ymatebion i TS15 eu nodi fel cyfran o gyfanswm y nifer o nosweithiau sydd wedi'u capio.
- TS21 – cyfansoddiad grŵp y daith. Os bydd ymatebwr yn nodi bod mwy na 2 ŵr/gwraig/partneriaid caiff ei olygu i lawr i 2. Mae hyn oherwydd y gellir tybio'n rhesymol fod unrhyw werth sy'n fwy na 2 yn deillio o gamgymeriad wrth nodi data.
- TS21 – cyfansoddiad grŵp y daith. Os yw ymatebwr yn nodi yn y cwestiwn blaenorol (TS20) eu bod yng nghwmni plentyn, ond nid oes unrhyw blant wedi'u nodi yn TS21, bydd newidyn maint y grŵp plant yn cael ei osod ar 'yn eisiau' a chaiff ei briodoli ar y canolrif di-sero o blant ar gyfer y math hwnnw o daith (a ddiffinnir gan OT3).
- TS21 – cyfansoddiad grŵp y daith. Os yw ymatebwr yn nodi yn y cwestiwn blaenorol (TS20) ei fod yng nghwmni oedolyn arall, ond nid yw'n nodi unrhyw oedolion yn TS21, bydd

newidyn maint y grŵp oedolion yn cael ei osod ar 'yn eisiau' a chaiff ei briodoli ar y canolrif di-sero o oedolion ar gyfer y math hwnnw o daith (a ddiffinnir gan OT3).

- TS21 – cyfanswm maint y grŵp. Mae cyfanswm maint y grŵp wedi'i gapio ar 10 oedolyn a 10 o blant oni bai bod yr ymatebwr yn dangos eu bod yn rhan o grŵp mwy yn TS23. Mae hyn er mwyn lleihau effaith unrhyw allanolion o ran nifer, nosweithiau gwely ac amcangyfrifon gwerth, yn enwedig wrth ddadansoddi ar lefel is-grŵp. Mae unrhyw gapiau ar faint y grŵp yn cael eu tynnu drwodd i gyfanswm y gwariant a chyfrifiadau nosweithiau gwely.
- TS21 – cyfanswm maint y grŵp. Os yw'r ymatebwr wedi dweud eu bod yn rhan o grŵp mwy yn TS23, mae cyfanswm maint y parti wedi'i gapio ar 70. Mae hyn er mwyn lleihau effaith unrhyw allanolion ar nifer, nosweithiau gwely ac amcangyfrifon gwerth, yn enwedig wrth ddadansoddi ar lefel is-grŵp. Mae unrhyw gapiau ar faint y grŵp yn cael eu tynnu drwodd i gyfanswm y gwariant a chyfrifiadau nosweithiau gwely.
- TS31 – gwariant y daith ar becyn. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £1,000, mae'r gwerth wedi'i gapio ar £1,000. Os dewisir 'ddim yn gwybod' mae unrhyw werthoedd sero yn cael eu disodli gan y canolrif di-sero gwariant fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos ar gyfer y categori hwn. Mae hyn oherwydd i'r ymatebwyr gael ei ofyn y cwestiwn hwn mae eisoes wedi nodi (yn TS25) bod ei daith yn cynnwys pecyn y talwyd amdano.
- TS32\_1 – gwariant y daith ar lety. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £500, mae'r gwerth wedi'i gapio ar £500. Os yw'r ymatebwr yn nodi nad yw llety wedi'i gynnwys mewn unrhyw wariant pecyn (nid yw TS26 yn gyfartal i 1) a bod rhywun wedi talu am ei lety (TS16b=1) a bod math y llety yn un lle rydym yn disgwyl y byddai yna bris, caiff unrhyw ymatebion 'ddim yn gwybod' eu disodli gan y gwariant canolrif di-sero fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos ar gyfer y categori hwn. Dyma'r mathau o lety lle y disgwylir pris (oni nodir fel arall yn TS16b):
  - Gwesty/Motel/Tafarn
  - Fflatiau wedi'u gwasanaethu
  - Tŷ llety/Gwely a brecwast
  - Ffermdy
  - Aros mewn fflat wedi'i rentu neu debyg
  - Aros mewn tŷ/bwthyn/caban wedi'i rentu neu debyg
  - Carafán statig – ddim yn eiddo i chi
  - Glampio / llety arall e.e. Yurt, Tipi, Tŷ Coeden, Ecopod ac ati.
  - Yng nghartref rhywun arall ar sail fasnachol – rhentu ystafell yn unig
  - Yng nghartref rhywun arall ar sail fasnachol - rhentu eiddo llawn
  - Hostel

- Cwch
  - Llong fordaith
  - Trên
  - Prifysgol/Ysgol
- TS32\_2 - Costau teithio i ac o'r gyrchfan ac yn ystod y daith. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £500, mae'r gwerth wedi'i gapio ar £500. Os nododd yr ymatebwr nad yw teithio wedi'i gynnwys mewn unrhyw wariant pecyn (nid yw TS26 yn gyfartal i 2) ac mae'n fath o drafndiaeth y byddem yn disgwyl bod yna bris, caiff unrhyw ymatebion 'ddim yn gwybod' eu disodli gan y canolrif di-sero o wariant fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos ar gyfer y categori hwn. Mathau o deithio y disgwylir gwariant yw:
    - Car – llogi/rhentu
    - Trên
    - Bws/coets cyhoeddus
    - Taith goets wedi'i threfnu
    - Tacsï
    - Tiwb/trên tanddaearol
    - Tram
    - Awyren
    - Cwch
    - Cwch neu fad camlas
    - Cwch/llog/fperi/cwch hwylio arall
  - TS32\_3 – gwariant teithiau ar wasanaethau neu gyngor. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £100 mae'r gwerth wedi'i gapio ar £100.
  - TS32\_4 – gwariant taith ar fwyta ac yfed allan. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £500, mae'r gwerth wedi'i gapio ar £500.
  - TS32\_5 – gwariant taith ar fwyta ac yfed mewn llety. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £500, mae'r gwerth wedi'i gapio ar £500.
  - TS32\_6 – gwariant taith ar siopa arall. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £500, mae'r gwerth wedi'i gapio ar £500.
  - TS32\_7 – gwariant taith ar adloniant. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £250 mae'r gwerth wedi'i gapio ar £250.
  - TS32\_8 – gwariant taith ar unrhyw beth arall. Os yw'r gwariant 'fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos' yn fwy na £250 mae'r gwerth wedi'i gapio ar £250.

- Pan fo ymatebwr wedi mynd ar daith gymwys yn y cyfnod adrodd (fel y nodir yn adran gyffredinol yr arolwg), ond heb ddarparu unrhyw wybodaeth fanwl am unrhyw deithiau yn y cyfnod adrodd (oherwydd bod yr holl deithiau y maent wedi rhoi gwybodaeth fanwl am yn syrthio i wahanol gyfnodau adrodd). Yn yr achosion hyn, dim ond newidynnau sy'n hanfodol i'r nifer, nosweithiau gwely ac amcangyfrifon gwerth sy'n cael eu priodoli, sef:
  - Mae gwlad y prif le yr ymwelodd ag ef (TS07) yn cael ei phennu ar hap i naill ai Cymru, Lloegr neu'r Alban
  - Mae'r nifer canolrif y nosweithiau ar gyfer y cyfnod adrodd yn cael ei briodoli yn TS05
  - Mae nifer canolrif yr oedolion mewn grŵp taith yn ystod y cyfnod adrodd yn cael ei briodoli yn TS21A\_1
  - Mae nifer canolrif y plant mewn grŵp taith yn ystod y cyfnod adrodd yn cael ei briodoli yn TS21A\_2
  - Mae nifer canolrif yr oedolion yn y grwpiau gwariant yn ystod y cyfnod adrodd yn cael ei briodoli yn NUM\_AD\_SPEND
  - Mae nifer canolrif y plant yn y grwpiau gwariant yn ystod y cyfnod adrodd yn cael ei briodoli ar NUM\_CH\_SPEND
  - Golygir y ffactor cywiro taith fel ei fod yr un fath â nifer y teithiau cymwys a gymerwyd yn y cyfnod adrodd (fel arall byddai'n 0)
  - Mae'r gwariant fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos yn cael ei briodoli ar y canolrif ar gyfer y cyfnod adrodd
  - Mae nifer y llefydd yr ymwelwyd â nhw yn ystod y daith yn cael ei osod ar 1

Mae canolrifau di-sero yn cael eu cyfrifo bob mis ac maent yn ystyried yr holl bobl sy'n cymryd taith ddilys. Yn ystod y cyfnod sefydlu a threialu yn 2020 archwiliwyd y defnydd o ddsbarthiadau priodoli, gan ddefnyddio grwpiau homogenaidd, megis pob cymerwr o fath penodol o daith, ond cawsant eu diystyru am nifer o resymau:

- Nid yw'r meintiau sylfaen sy'n deillio o hynny, yn enwedig ar gyfer 2020 a 2021 pan gyfyngwyd ar ymddygiad teithio gan gyfyngiadau COVID-19, yn cefnogi rhannu'r ymatebion i grwpiau ystyrllon. Mae gormod o wahanol fathau o deithiau i roi meintiau sylfaen dibynadwy i gyfrifo canolrifau di-sero ar gyfer grwpiau homogenaidd.
  - Er enghraifft, ym mis Medi, y mis gyda'r nifer uchaf o deithiau cymwys yn 2020, roedd 639 o deithiau wedi cymhwyso fel Teithiau Gwyliau Domestig Prydain Fawr. Roedd 7 o'r teithiau hyn â dim gwariant, felly defnyddir y 632 sy'n weddill i gyfrifo'r canolrif di-sero.

- Fodd bynnag, os caiff y 632 hwn ei rhannu gan y prif weithgaredd a wneir ar y daith (y newidyn sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar wariant cyfatebol fesul oedolyn) mae rhai categorïau gweithgaredd gyda niferoedd anghymesur o fach:
  - Gwyliau wedi'i gymryd yn y DU – 335
  - Ymweld â ffrindiau neu berthnasau yn y DU – 171
  - Taith fusnes yn y DU – 31
  - Arhosiad dros nos yn y DU fel rhan o daith dramor – 32
  - Math arall o daith a gymerwyd yn y DU - 63
- Ystyriwyd grwpiau demograffig neu leoliad hefyd, ond yn yr un modd, nid oedd y meintiau sylfaen a ddeilliodd o hynny yn caniatáu hyn o fewn pob mis
- Ystyriwyd a ellid defnyddio cyfnod o fwy na mis i bennu'r canolrifau di-sero. Fodd bynnag, oherwydd amrywiad tymhorol mewn gwariant, yn benodol yn gysylltiedig â gwyliau ysgol cafodd hyn ei ddiystyru
- Pe bai dosbarthiadau priodoli yn cael eu defnyddio byddai'n arwain at fwy o amrywioldeb mewn canolrifau di-sero a byddent yn fwy agored i allanolion, sy'n golygu mwy o risg o ganlyniadau gogwydd priodoli

Mae'r mwyafrif llethol o'r priodoli sy'n digwydd ar gyfer data gwariant ac yn cael ei wneud oherwydd bod ymatebwyr wedi dweud nad ydynt yn gwybod faint gafodd ei wario ar eu taith. Pe na bai gwerthoedd yn cael eu nodi ar gyfer y teithiau hyn byddai'r cyfrifiadau gwariant sy'n deillio o hynny yn cymryd yn anghywir bod yr holl deithiau y dewiswyd 'ddim yn gwybod' ar eu cyfer mewn gwirionedd wedi bod â dim gwariant. Byddai hyn yn anghywir, fel y gwyddom o deithiau eraill y mae gwariant yn digwydd yn wir, a byddai'n arwain at amcangyfrifon llawer is o gyfanswm gwariant yn gyffredinol. Felly, defnyddir priodoli i leihau effaith yr ymatebion 'ddim yn gwybod' hyn.

Capiau nifer, gwariant a nosweithiau gwely oedd y cam priodoli olaf a gymhwyswyd i ddata 2021 i reoli effaith teithiau neu wariant tripiâu anarferol o fawr. Gwnaed gwaith dadansoddi ar ddata 2021 i asesu effaith yr allbwyntiau hyn, yr oedd rhai ohonynt yn gyfrifol am hyd at 30% o wariant neu niferoedd misol ar gyfer cenedl yn ystod mis penodol. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, cytunwyd ar gapiau ac fe'u rhoddwyd ar waith gan leihau effaith unrhyw dripiâu allbwynt. Ceir llond llaw o allbwyntiau bob mis, sy'n golygu mai canran fach iawn o dripiâu cyffredinol sy'n cael eu heffeithio (rhwng 0.05% ar gyfer Lloegr ac 1.28% ar gyfer Cymru). Gweler y tabl capiau a phriodoliadau ar dudalennau 17-19 am fanylion.

Caiff capiau eu cymhwyso i ddata misol ar gyfer pob gwlad. Mae gan Loegr gap canrannol is oherwydd y maint sampl mwy.



- Lloegr – capio unrhyw drip sy'n fwy na 5% o werth gwariant wedi'i gapio a'i bwysoli wedi'i hidlo i Loegr ar 5%. Capio unrhyw drip sy'n fwy na 2.5% o niferoedd wedi'u capio a'u pwysoli wedi'i hidlo i Loegr ar 2.5%.
- Yr Alban – capio unrhyw drip sy'n fwy na 10% o werth gwariant wedi'i gapio a'i bwysoli wedi'i hidlo i'r Alban ar 10%. Capio unrhyw drip sy'n fwy na 5% o niferoedd wedi'u capio a'u pwysoli wedi'i hidlo i'r Alban ar 5%.
- Cymru – capio unrhyw drip sy'n fwy na 10% o werth gwariant wedi'i gapio a'i bwysoli wedi'i hidlo i Gymru ar 10%. Capio unrhyw drip sy'n fwy na 5% o niferoedd wedi'u capio a'u pwysoli wedi'i hidlo i Gymru ar 5%.

I gyfrifo capiau nosweithiau gwely, cyfrifir y newid canrannol rhwng y sgôr nifer gwreiddiol a'r sgôr nifer wedi'i gapio, caiff y sgôr nosweithiau gwely ei leihau o'r un maint hwn wedyn. Mae hyn yn sicrhau bod y newidiadau rhwng nifer a nosweithiau gwely yn gymesur.

Mae gan briodoli ei gyfyngiadau. Mae'n cymryd yn ganiataol bod pob person wnaeth fynd ar daith na roddodd wybodaeth am wariant wedi bod â gwariant fesul oedolyn sy'n cyfateb i bob nos tebyg, pan fyddwn yn gwybod bod gwariant yn wahanol iawn ar gyfer pob taith a gymerwyd. Mae hefyd yn tybio bod cyfran debyg o bobl oedd yn cymryd teithiau na roddodd wybodaeth am wariant mewn gwirionedd â dim gwariant fel y rhai a wnaeth roi gwybodaeth am wariant. Fodd bynnag, nod y dull priodoli yw cydbwysu'r cyfyngiadau hyn yn erbyn effaith dim priodoli.

Mae disgwyl i effaith y capiau a'r priodoliadau fod yn isel iawn. Fe'u cymhwysir dim ond mewn achosion lle gellir tybio'n rhesymol bod gwall wedi'i wneud ar y cam nodi data gan yr ymatebwr neu lle nad oes data wedi'i roi gan yr ymatebwr. O'r herwydd mae lefelau'r capiau wedi'u gosod yn sylweddol uwch na'r gwariant cyfartalog fesul nos (rhwng £50 ac £80 fel arfer).

Yn 2021 gweithredwyd y nifer canlynol o gapiau a phriodoliadau:

		Ebrill	Mai	Mehafin	Goffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Cyfanswm
<b>Golygiadau i gywiro ar eu cyfer:</b>	Anghysondebau ym maint y grwpiau*	8	19	13	16	30	25	13	8	21	153
	'ddim yn gwybod' yn cael ei nodi am faint y grwpiau*	6	16	10	14	18	18	10	6	15	113

		Ebrill	Mai	Mehafin	Goffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Cyfanswm
	'Ddim yn gwybod' yn cael ei nodi am a oedd rhywun gyda nhw ar daith	1	5	6	6	6	5	6	7	7	49
	Ddim yn nodi pris llety (ond wedi aros mewn llety y byddai tâl amdano mewn rhai categorïau)	5	15	21	25	37	28	16	14	30	191
	Dim gwariant ar deithio (ond wedi defnyddio mathau o drafnidiaeth sydd â chost fel arfer)	8	20	22	27	28	31	26	14	28	204
<b>Capiau ar gyfer nifer o nosweithiau:</b>	Nosweithiau wedi'u capio ar 30	3	4	4	9	11	10	15	5	14	75
	Nosweithiau DU ar gyfer teithiau tramor wedi'u capio ar 4	3	11	4	7	12	19	8	5	16	85
<b>Capiau yn berthnasol i faint y grŵp:</b>	Maint y grŵp wedi'i gapio ar 20	0	0	1	1	2	0	1	0	1	6
	Maint y grŵp wedi'i gapio ar 70 (pan fo'n rhan o grŵp mwy)	0	1	3	0	0	0	1	0	0	5
<b>Capiau ar gyfer gwariant fesul oedolyn y nos:</b>	Pecyn, mwy na £1,000	1	0	1	0	2	2	2	3	2	13
	Llety, mwy na £500	2	3	1	1	0	1	1	0	6	15
	Teithio, mwy na £500	1	0	1	1	1	0	1	0	2	7
	Gwasanaethau, mwy na £100	1	2	0	1	4	0	3	0	2	13
	Bwyta ac yfed allan, mwy na £500	0	0	1	0	0	1	1	0	0	3

		Ebrill	Mai	Mehafin	Goffennaf	Awst	Medi	Hydref	Tachwedd	Rhagfyr	Cyfanswm
	Bwyta ac yfed mewn llety, mwy na £500	0	0	1	0	1	0	1	0	0	3
	Siopa eraill, mwy na £500	1	2	0	1	2	2	2	0	2	12
	Adloniant, mwy na £250	1	0	0	0	2	2	3	1	2	11
	Unrhyw beth arall, mwy na £250	0	0	1	0	1	2	2	1	5	12
<b>Capiau Niferoedd:</b>	Niferoedd Lloegr (uwchben 2.5%)	0	0	1	1	0	1	0	2	0	5
	Niferoedd yr Alban (uwchben 5%)	12	0	1	2	0	0	1	2	0	18
	Niferoedd Cymru (uwchben 5%)	2	1	1	1	0	0	0	6	0	11
<b>Capiau Gwariant:</b>	Gwariant Lloegr (uwchben 5%)	2	0	0	0	0	0	0	1	0	3
	Gwariant yr Alban (uwchben 10%)	2	0	0	0	0	0	1	1	0	4
	Gwariant Cymru (uwchben 10%)	0	2	1	0	0	0	1	0	1	5
<b>Capiau Nosweithiau Gwely:</b>	Niferoedd Lloegr (uwchben 2.5%)	0	0	1	1	0	1	0	2	0	5
	Niferoedd yr Alban (uwchben 5%)	12	0	1	2	0	0	1	2	0	18
	Niferoedd Cymru (uwchben 5%)	2	1	1	1	0	0	0	6	0	11

\*Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli nifer y golygiadau, yn hytrach na nifer y teithiau a gafodd eu golygu. Mae hyn oherwydd bod golygiadau ar wahân i oedolion a phlant yn grŵp y daith. Bydd gwir nifer y teithiau a olygwyd yn is na'r nifer a roddir.

#### 4.5.2 Pwysoliad

Mae pwysoli yn golygu ail-gydbwysio data arolygon i adlewyrchu'r boblogaeth yn fwy cywir.

Defnyddir pwysoliadau ôl-haeniad ar gyfer GBTS i addasu'r sampl a gyflawnwyd i'r boblogaeth hysbys. Fe'i defnyddir hefyd i gywiro ar gyfer gorsamplu'r ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru a'r Alban. Mae pwysoli'n addasu'r canlyniadau fel bod cyfanswm wedi'u pwysoli ar nifer o

newidynnau allweddol yn cytuno â chyfrannau hysbys ym mhoblogaeth celloedd nad ydynt yn gorgyffwrdd, sy'n unigryw i'w gilydd.

Ar gyfer GBTS mae pwysoliadau wedi'u grosio yn cael eu defnyddio. Mae lluosydd yn cael ei gymhwyso i ymatebion fel bod arwydd o'r hyn y byddai'r canlyniadau'n ei ddangos pe bai modd cyfrifo'r sampl cwota yn gynrychioliadol o'r boblogaeth gyfan.

Mae pwysoliadau gros yn cael eu penderfynu gan y celloedd sampl a ffigurau'r boblogaeth, ac maent yn cael eu cymhwyso at bob cofnod cyfweiliad cymwys, gan gynnwys ymatebwyr dim taith. Mae'r cynllun pwysoli yn berthnasol i bwysoliadau rim fel a ganlyn:

- Rhywedd (gwrywaidd/benywaidd) ac oedran (16-24, 25-34, 35-44, 45-54, 55-64, 65-74, 75+) wedi'u plethu – 14 o gelloedd
- Rhanbarth (safon 11 GOR; Dwyrain Canolbarth Lloegr, Dwyrain Lloegr, Llundain, Gogledd-ddwyrain, Gogledd-orllewin, De-ddwyrain, De-orllewin, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a'r Humber, Yr Alban, Cymru) – 11 o gelloedd
- Amcangyfrif gradd gymdeithasol (AB / C1 / C2 / DE) - 4 Cell

Mae hyn yn arwain at fatrics pwysoli sy'n ymgorffori 616 o gelloedd.

Mae'r cynllun pwysoli yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir ar gyfer fersiynau blaenorol o GBTS. Yn 2019 ac yn gynharach, roedd y cynllun pwysoli (a ddyfeisiwyd gan yr asiantaeth gwaith maes ar y pryd) hefyd yn ymgorffori perchnogaeth ceir a phresenoldeb plant ar yr aelwyd. Roedd ganddo hefyd gelloedd ychwanegol ar gyfer oedran (75-84 a 85+) a gradd gymdeithasol (roedd D ac E yn gelloedd ar wahân). O'r herwydd arweiniodd at 5,280 o gelloedd pwysoli. Penderfynwyd lleihau'r meini prawf pwysoli, ac felly cymerwyd nifer y celloedd i wella'r effeithlonrwydd pwysoli. Mae cynlluniau pwysoli symlach yn tueddu i gael llai o effaith ar y data na rhai mwy cymhleth, felly mae effaith pwysoli yn 'ysgafnach' ac effeithlonrwydd pwysoli yn uwch, ac felly'n arwain at fwy o gywirdeb trwy amrywiant samplu is, gwriad safonol a gwall safonol. O ystyried bod dadansoddi is-setiau bach o'r data yn elfen bwysig o GBTS cytunwyd y dylid gwella'r effeithlonrwydd pwysoli fel hyn.

Cynhaliwyd dadansoddiad ar ddata a gasglwyd yn flaenorol (o arolwg 2018) i bennu effaith debygol y newid hwn mewn meini prawf pwysoli. Defnyddiodd y dadansoddiad 65+ fel y grŵp oedran uchaf ac felly arweiniodd at 528 o gelloedd pwysoli. Amcangyfrifodd y dadansoddiad hwn, er iddo gael ei gyfyngu gan y data sydd ar gael, fod y newid yn effeithio ar faint o ymweliadau gan +2.0%, nifer y nosweithiau gwely gan +3.5% a gwerth teithiau dros nos gan +1.8%. Gwnaed penderfyniad dilynol yn gynnar yn 2022 i ehangu'r categorïau oedran gan ddefnyddio yr pwysoliadau rim oedran a rhywedd wedi'u plethu, fel yn hytrach na defnyddio 65+ fel y grŵp

oedran uchaf, defnyddiwyd grwpiau ar gyfer 65-74 a 75+. Gweithredwyd hyn fel dadansoddiad o ogwydd bosibl yn y sampl a gasglwyd yn dangos bod y sampl a gasglwyd yn gynrychioliadol yn fras o'r rhai rhwng 65 a 74 oed, ond nid o'r rhai 75++. Trwy hollti'r categorïau oedran uchaf mae'r cynllun pwysoli diwygiedig yn mynd rhywfaint o'r ffordd i liniaru yn erbyn y tangynrychiolaeth hon o dros 75 oed. Cafodd y newid hwn ei ôl-ddyddio ar gyfer holl ddata 2021.

Fel y crybwyllwyd yn adran 4.1.2, at ddibenion pwysoli, mae'r ystadegau poblogaeth ar gyfer NS-SEC o'r Arolwg Poblogaeth Blynnyddol yn cael eu mapio i amcangyfrif o radd gymdeithasol. Nid yw'n bosibl cyfrifo lefel cywirdeb y mapio hwn gan nad yw'r cwestiwn a ddefnyddir i ddeillio o radd gymdeithasol fras a'r set o gwestiynau a ddefnyddir i ddeillio NS-SEC yn cael eu gofyn mewn unrhyw un arolwg gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod ystadegau'r boblogaeth yn cael eu mapio i amcangyfrif o radd gymdeithasol cyn iddynt gael eu defnyddio yn cyflwyno rhywfaint o wall ystadegol. Nid yw maint y gwall ystadegol hwn yn hysbys, ond mae'n bosibl y gall effeithio'n anghymesur ar raddau cymdeithasol unigol.

#### 4.5.3 Newidynnau deilliannol a ffactorau cywiro

Ar ôl cymhwyso'r pwysoliadau, mae dau gywiriad lefel ymatebwr sy'n cael eu cymhwyso:

- Ffactor cywiro taith
- Ffactor adrodd rhannol

Mae'r ffactor cywiro taith yn cyfrif am y ffaith y gofynnir cwestiynau manwl i ymatebwyr am uchafswm o 3 taith o fewn y cyfnod cyfeirio, ond gallant nodi yn adran gyffredinol yr holiadur eu bod wedi cymryd mwy na 3 taith gymwys o fewn y cyfnod hwn. Mae'r ffactor cywiro taith yn cael ei gyfrifo drwy rannu nifer y teithiau cymwys yn ôl nifer y teithiau y casglwyd gwybodaeth fanylach amdanynt. Mae'r ffactor cywiro hwn yn tybio bod teithiau lle na chasglwyd gwybodaeth fanwl yn debyg o ran natur i'r rhai lle casglwyd gwybodaeth fanwl ar gyfer yr ymatebwr.

Mae'r ffactor adrodd rhannol yn cyfrif am y ffaith bod canlyniadau'n cael eu hadrodd ar sail mis calendr, ond y gofynnir i bob ymatebwr am y teithiau dros nos a gymerwyd ganddynt yn y 4 wythnos flaenorol yn unig. At ddibenion adrodd mae pob mis adrodd yn cynnwys naill ai 4 neu 5 wythnos gyfan. Wrth i'r ymatebwyr gael eu holi am deithiau y maen nhw wedi'u cymryd dros gyfnod o 4 wythnos, gan amlaf maen nhw'n ateb tua dau gyfnod adrodd gwahanol ac nid ydyn nhw'n cael eu holi am unrhyw gyfnod adrodd llawn. Er enghraifft, pe bai ymatebwr yn gwneud yr arolwg ar 22 Chwefror 2021, byddent yn cael eu holi am deithiau a gymerwyd ganddynt rhwng 25 Ionawr a 21 Chwefror. Mae hyn yn golygu eu bod wedi cael eu holi am deithiau'n digwydd mewn 1 allan o'r 5 wythnosau sy'n berthnasol i Ionawr 21, a 3 allan o'r 4 wythnosau sy'n berthnasol i Chwefror 21.

Gan nad yw'r ymatebwyr hyn wedi cael cyfle i ddweud wrthym am unrhyw deithiau am y 3 wythnos gyntaf ym mis Ionawr neu'r wythnos olaf ym mis Chwefror, rydym yn defnyddio ffactor cywiro o'r enw'r 'ffactor adrodd rhannol' (PRF). Mae hyn yn cymryd yn ganiataol bod eu patrwm o gymryd y daith yn debyg am yr wythnosau na ofynnwyd iddynt amdanant ym mis Ionawr a Chwefror fel yr oedd am yr wythnosau y gofynnwyd iddynt amdanant yn y misoedd hyn. Yn y bôn, mae'n ffactor lluosu sy'n efelychu eu teithiau am yr wythnosau o fewn y cyfnod adrodd dan sylw na ofynnwyd iddynt.

Fodd bynnag, mae'r gyfran o fis y mae ymatebwr wedi cael cyfle i ddweud wrthym am wahanol bethau yn dibynnu ar yr wythnos y maent yn cymryd yr arolwg. Gan mai nod yr arolwg yw cael yr un nifer o gyfweiliadau bob wythnos, yn hytrach na chyfrifo PRF unigol ar gyfer pob ymatebwr gallwn gyfrifo un cyfartaledd ar gyfer y mis. Mae defnyddio cyfartaledd, yn hytrach na PRFs unigol yn helpu i esmwytho effaith unrhyw allanolion ac felly mae'n golygu nad ydynt yn cael effaith anghymesur ar yr amcangyfrifon sy'n deillio o hynny.

I gyfrifo'r PRF cyfartalog rydym yn cymryd cymedr y gwahanol gyfrannau o'r mis y mae'r ymatebwyr wedi ateb amdanant. Mae'r tabl isod yn dangos enghraifft o 4 wythnos o fis. Dim ond tua 1 wythnos o gyfnod adrodd mis Chwefror y gofynnir i'r ymatebwyr sy'n cymryd yr arolwg yn yr wythnos yn dechrau ar 8 Chwefror. Gan fod cyfnod adrodd mis Chwefror yn 4 wythnos, mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu holi am tua chwarter y cyfnod adrodd. Gofynnir i ymatebwr sy'n cymryd yr arolwg yn yr wythnos yn dechrau ar 15 Chwefror am tua 2 wythnos, ac felly hanner y cyfnod adrodd, ac yn y blaen. Mae cymedr 0.25, 0.45, 0.75, 1, 0.75, 0.5, a 0.25 yn 0.57. Yna, rydym yn gwrth-droi hyn i gael y PRF o 1.75 (1/0.57) ar gyfer mis Chwefror.

#### Wythnos gyfeirio

Wythnos gwaith maes	11/01 /2021	18/01 /2021	25/01 /2021	01/02 /2021	08/02 /2021	15/02 /2021	22/02 /2021	01/03 /2021	08/03/2021	15/03 /2021
08/02/2021				0.25						
15/02/2021					0.5					
22/02/2021						0.75				
01/03/2021							1.0			
08/03/2021							0.75			
15/03/2021							0.5			
22/03/2021							0.25			

Mae'r ffactor adrodd rhannol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth (yn absenoldeb gwybodaeth arall) y byddai pob ymatebwr, neu o leiaf ymatebwr arall gyda nodweddion tebyg, wedi cael patrwm tebyg o deithiau dros nos ar yr wythnosau eraill o fewn y cyfnod adrodd. Nid yw'r dybiaeth hon yn cyfrif am nifer y teithiau afreolaidd o fewn cyfnod adrodd misol ac felly gallai gynyddu neu ostwng niferoedd pan fo wythnosau unigol o fewn cyfnod adrodd yn annodweddiadol, megis yn ystod gwyliau hanner tymor ysgol. Fodd bynnag, yn absenoldeb gwybodaeth arall am ymddygiad cymryd teithiau yr ymatebwyr am weddill y cyfnod cytunwyd y byddai'r ffactor adrodd rhannol hwn yn cael ei gymhwyso. Mae'r ffactor adrodd rhannol wedi cael ei gymhwyso fel hyn mewn blynyddoedd blaenorol o GBTS.

Ar ôl i'r ffactorau cywiro lefel ymatebwyr gael eu defnyddio mae'r ffeil lefel ymatebwyr yn cael ei throsi'n ffeil lefel taith. Yn y ffeil hon rhoddir ei gofnod ei hun i bob taith a adroddir, gyda'r wybodaeth benodol i ymatebwyr (megis demograffeg, pwysoliad a'r ffactor cywiro taith a'r ffactor adrodd rhannol) yn cael ei dyblygu.

Yna defnyddir tri ffactor cywiro lefel taith:

- Ffactor cywiro taith plentyn
- Ffactor cywiro gwariant plentyn
- Ffactor llyfnu tymhorol

Mae'r ffactor cywiro taith plentyn yn cyfrif am blant, gan eu bod yn cael eu heithrio o'r sampl (dim ond o oedolion 16+ oed y caiff data ei gasglu). Mae pob plentyn yn cael ei 'rannu' ar draws nifer yr oedolion yn grŵp y daith. Mae'r ffactor cywiro taith plentyn yn cael ei gyfrifo drwy rannu nifer y plant yn grŵp y daith gan nifer yr oedolion yn grŵp y daith.

Mae'r ffactor cywiro gwariant plentyn yn cyfrif am y ffaith y gall ymatebwr gynnwys gwariant ar ran plentyn yn y data gwariant y maen nhw'n ei ddarparu. Mae pob plentyn yn cael ei ddyrannu hanner gwariant oedolyn (gan fod pris plentyn yn aml yn hanner pris oedolyn ar agweddau megis ffioedd trafndiaeth a mynediad) ac mae pob plentyn yn cael ei 'rannu' ar draws nifer yr oedolion yn grŵp y daith. Mae'r ffactor cywiro gwariant plentyn yn cael ei gyfrifo gan  $\frac{1}{2} * [\text{nifer y plant/nifer yr oedolion}]$ .

Yn 2021 cynhaliwyd gwaith ychwanegol i ystyried a yw'r rhagdybiaeth bod gwariant ar blentyn yn hanner un oedolyn yn gadarn. Defnyddiodd y dadansoddiad hwn ddata arolwg 2020. Dangosodd y dadansoddiad fod gwariant ar bob plentyn ychwanegol yn 2020 yn 40.8% o wariant ar bob oedolyn ychwanegol.

Mae'r ffactor llyfnu tymhorol (SSF) yn caniatáu cymharu canlyniadau am yr un mis ar draws gwahanol flynyddoedd. Mae'n llyfnu effaith misoedd adrodd sy'n cynnwys 4 neu 5 wythnos gyfan, ac yn golygu bod yr amcangyfrifon sy'n deillio o hynny yn rhoi brasamcan o'r hyn y byddai'r amcangyfrifon ar gyfer mis calendr. Mae'r SSF yn cael ei gymhwysu i bob taith o fewn mis yn gyfartal. Mae'r SSF yn cael ei gyfrifo trwy rannu nifer y dyddiau yn y mis calendr dan sylw yn ôl nifer y dyddiau yn y mis adrodd cyfatebol. Yn dibynnu ar y mis dan sylw, mae'r SSF yn amrywio rhwng 0.857 a 1.107.

#### 4.5.4 Graddnodi

Ar ôl rhoi'r capiau a'r priodoliadau a ddisgrifir uchod ar waith, graddnodwyd data 2021 oherwydd newid a wnaed i'r holiadur ym mis Mai 2022. O archwilio data misol Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr (GBTS) 2022 i gychwyn, roedd y patrymau tymhorol yn edrych yn wahanol a braidd yn anghyson â'r hyn a ddisgwyliwyd. Bu gostyngiad annisgwyl a sylweddol i niferoedd yn dechrau ym mis Mai 2022, a barhaodd drwy gydol y flwyddyn gan arwain at gyfartaledd blynyddol sylweddol is o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. 2022 oedd y flwyddyn lawn gyntaf o ddata ar ôl Covid (ac nid oedd unrhyw ddata ar gyfer 2020 a'r rhan gyntaf o 2021 oherwydd tarfu a achoswyd gan bandemig COVID-19, gan gynnwys cyfyngiadau teithio) felly gwnaed cymariaethau â data GBTS 2018 a 2019, yn ogystal â ffynonellau data teithio eraill. Yn dilyn ymchwiliad cydweithredol gan BMG a'r Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol, daethpwyd i'r casgliad mai'r newid i eiriad OT1 am ba un a aethpwyd ar dripiâu dros nos ai peidio oedd y prif gyfrannwr at y newid y niferoedd tripiâu. Y rhesymeg a oedd yn sail i newid y geiriad oedd cael gwared ar hysbysu am dripiâu beunyddiol mater o drefn fel y byddai'r ystadegau yn adlewyrchu tripiâu twristiaeth gwirioneddol yn well. Newidiodd y cwestiwn o:

*A ydych chi wedi dychwelyd o unrhyw dripiâu sydd wedi cynnwys arhosiad dros nos yn y DU oddi cartref yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf (e.e. rhwng [MEWNOSOD DYDDIAD 2] a [MEWNOSOD DYDDIAD 1])?*

*Mae gennym ddiddordeb ym mhob trip dros nos am ba bynnag reswm, gan gynnwys gwyliau, ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau, tripiâu busnes, tripiâu addysg neu dripiâu ar gyfer unrhyw ddiben arall.*

i:

*A ydych chi wedi dychwelyd o unrhyw dripiâu sydd wedi cynnwys arhosiad dros nos yn y DU oddi cartref yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf (e.e. rhwng [MEWNOSOD DYDDIAD 2] a [MEWNOSOD DYDDIAD 1])?*

*Mae gennym ddiddordeb ym mhob trip dros nos na ydynt yn rhan o'ch bywyd beunyddiol arferol. Gallai hyn gynnwys gwyliau, ymweliadau â ffrindiau a pherthnasau, tripiâu busnes, tripiâu addysg neu unrhyw fathau o dripiâu dros nos eraill.*

I fynd i'r afael â hyn, penderfynwyd y byddai graddnodi yn cael ei roi ar waith yn hanesyddol, yr holl ffordd yn ôl i fis Ebrill 2021. Gwnaed y penderfyniad i roi'r graddnodi ar waith yn hanesyddol gan y bwriadwyd i'r cwestiwn newydd eithrio tripiâu dros nos o natur aml a rheolaidd sy'n rhan o fywyd



beunyddiol arferol ac nad ydynt yn dripiâu 'twristiaeth'. Cytunwyd bod geiriad newydd y cwestiwn yn diwallu anghenion y rhaglen yn well. Hefyd, ar ôl ei roi ar waith, ni fyddai unrhyw angen graddnodi yn y dyfodol/yn barhaus.

Cytunwyd defnyddio cyfartaledd o'r ffactorau graddnodi a ddeilliodd o setiau data 2019 a 2018 GBTS, wedi'u cyfrifo a'u rhoi ar waith ar wahân ar gyfer pob gwlad. Arweiniodd hyn at roi un ffactor graddnodi ar gyfer pob gwlad ar waith yng nghyswllt data misol o fis Ebrill 2021 i fis Ebrill 2022 cynhwysol. Mae'r ffactorau graddnodi fel a ganlyn:

Ffactorau graddnodi fesul gwlad	
Lloegr	0.741
Yr Alban	0.771
Cymru	0.631

Rhodddwyd y ffactor graddnodi ar waith wedyn ar gyfer pwysoliad terfynol pob trip a gofnodwyd. Roedd gan bob cofnod bwysoliad terfynol a oedd yn gyfuniad o bwysoliad geo-ddemograffig ar sail gros a gwahanol ffactorau addasu (fel y ffactor adrodd rhannol). Disgrifir manylion y rhain yn adrannau 4.5.2, a 4.5.3. Defnyddir y pwysoliad terfynol ar gyfer pob cofnod i bwysoli'r cofnod hwnnw a'r holl newidynnau rhifol ynddo, gan gynnwys y newidynnau diagnostig rhifol fel maint parti. Felly, roedd gan bob cofnod bwysoliad terfynol wedi'i addasu newydd yn unol â'r dull graddnodi a gytunwyd, a oedd yn gostwng amcangyfrifon rhyw fymryn.

## 4.6 Addasiad

Nid yw'r adran hon yn berthnasol gan nad oes addasiadau tymhorol nac addasiadau lefel macro eraill i'r data.

## 5. Rheoli ansawdd

### 5.1 Sicrhau ansawdd

O ran y cyflenwr ar gyfer yr ymchwil, mae'r System Rheoli Ansawdd BMG (QMS) yn rhan annatod o'r busnes BMG ac yn ffurfio conglaen pob agwedd ar ddarpariaeth gwasanaethau BMG. Mae'r QMS wedi'i greu o nifer o safonau cydnabyddedig y diwydiant. Mae'r holl weithwyr sy'n gweithio ar brosiect yn cadw at y cod Ymddygiad MRS bob amser. Mae BMG yn mabwysiadu'r prosesau rheoli ansawdd tynnaf ac mae'r safonau y datblygwyd y rhain oddi tanynt ac y mae BMG yn cael eu cydnabod amdanynt isod:

- ISO 9001: 2015; Y Safon Ryngwladol ar gyfer Ansawdd Sefydliadol;
- ISO 20252: 2019; Y Safon Ryngwladol ar gyfer Ymchwil i'r Farchnad;
- ISO 27001: 2013; Y Safon Ryngwladol ar gyfer Rheoli Diogelwch Gwybodaeth;
- Ardystiad Cyber Essentials Plus;

- Sefydliad Data Teg;
- IQCS; Cynllun Rheoli Ansawdd y Cyfwelydd;
- Deddf Diogelu Data;
- Cod Ymddygiad Cymdeithas Ymchwil y Farchnad

Mae nifer o fesurau ansawdd yn cael eu gweithredu'n benodol ar gyfer yr arolwg hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Elfennau dilysu data wedi'u cynnwys yn y sgrïpt arolwg
- Ar ddiwedd pob cyfnod gwaith maes, caiff data ei lanhau o fewn y system arolwg. Mae'r broses lanhau hon yn cael gwared ar ymatebwyr mewn nifer o sefyllfaoedd lle ystyrir eu bod o 'ansawdd gwael':
  - Ymatebwyr sy'n arddangos ymddygiad tebyg, fel dewis yr un ymateb mewn cwestiynau lle defnyddir yr un raddfa
  - Ymatebwyr sy'n arddangos ymddygiad clicio trwodd, fel dewis yr opsiwn cyntaf neu'r opsiwn olaf ym mhob un cwestiwn neu bron pob cwestiwn
  - Ymatebwyr sy'n arddangos ymddygiad gwastad ar gwestiynau agored, fel nodi un cymeriad yn unig mewn blychau penagored, neu ddewis 'ddim yn gwybod' ar gyfer pob cwestiwn penagored
  - Ymatebwyr sydd â javascript wedi'i analluogi gan fod hyn yn atal rhai elfennau o'r arolwg rhag arddangos yn gywir
  - Ymatebwyr sy'n nodi rwtsh ar gyfer cwestiynau penagored
  - Ymatebwyr sy'n rhoi oedran anghyson o'i gymharu ag addysg
- Cyfres o wiriadau ansawdd ar ddata sy'n cael ei allforio o'r system arolygu cyn i brosesu data ddechrau sicrhau bod y data yn ôl y disgwyl ac am y cyfnod cywir
- Defnyddio capiau data a phriodoliadau ar y cam prosesu data
- Gwiriadau ansawdd ar adroddiadau a gynhyrchwyd o'r data wedi'i brosesu, gan gynnwys unrhyw ymchwiliad i allanolion

## 5.2 Asesiad o ansawdd

Mae asesiadau ansawdd yn cael eu perfformio ar y rhan fwyaf o elfennau'r broses sicrhau ansawdd penodol i'r arolygiad:

- Nid yw'n bosibl asesu'n feintiol pa mor dda y mae'r elfennau dilysu data a gafodd eu cynnwys yn sgrïpt yr arolwg wedi perfformio. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn caniatáu i ddata nad yw'n bodloni'r pwyntiau dilysu gael eu nodi. O'r herwydd, ni dderbyniwyd unrhyw ddata nad yw'n bodloni'r elfennau dilysu yn y sgrïpt.

- Cynhaliwyd camau glanhau arolwg ar gyfer pob mis adrodd. Mae cyfran yr ymatebwyr a dynnwyd yn ystod y broses lanhau yn amrywio fesul mis, sy'n amrywio o 5.6% i 11.2%. Roedd disgwyl y byddai cyfran yr echdyniadau ar hyn o bryd tua 10%. 8.0% oedd cyfran cyfartalog yr echdyniadau dros y flwyddyn, ac felly o fewn yr ystod ddisgwyliedig.
- Nid yw'n bosibl rhoi asesiad meintiol o'r gwiriadau ansawdd ar ddata a allforiwyd o'r system arolygu a phe bai unrhyw wallau'n cael eu canfod, cafodd y data ei ail-allforio.
- Perfformiwyd nifer fach o gapiau a phriodoliadau bob mis. Mae mwy o fanylion am y capiau a'r priodoliadau hyn, gan gynnwys y nifer a berfformir ar draws y flwyddyn i'w gweld yn adran 4.5.1. Asesiad cyffredinol y capiau a'r priodoliadau hyn yw eu bod o fewn lefelau derbyniol a dim ond yn effeithio ar gyfran fechan o deithiau.
- Mae nifer yr achosion ym mhob categori monitro yn cael eu monitro bob mis er mwyn sicrhau nad oes celloedd pwysoli yn wag. Yn 2021, doedd dim celloedd pwysoli yn wag ar gyfer unrhyw un o'r misoedd adrodd.
- Nid yw'n bosibl rhoi asesiad meintiol o wiriadau ansawdd ar yr adroddiadau a gynhyrchwyd a phe bai gwall yn cael ei nodi cafodd ei gywiro. Ni chafwyd hyd i wallau cyson.

Nid oedd y broses ystadegol yn destun adolygiad mewnol gan gymheiriaid yn ystod y cyfnod adrodd.

Yn 2021, gofynnwyd i [Wasanaeth Cynghori methodoleg \(MAS\)](#) y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddarparu sicrwydd methodolegol o newidiadau i dulliau a gyflwynwyd yn 2020 ar gyfer GBTS (ac ar gyfer GBDVS). Roedd diddordeb arbennig mewn adolygu cynrychiolydd yr arolwg a'r defnydd o ffactorau cywiro a thorri rheolau. Doedd yr adolygiad ddim yn asesiad ffurfiol yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Fe wnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion ac awgrymiadau. Roedd nifer o'r argymhellion a'r awgrymiadau hyn yn ymwneud ag adrodd gwybodaeth yn yr Adroddiad Ansawdd Cefndir hwn. Mae'r rhain wedi cael eu gweithredu yn y fersiwn hon o'r adroddiad. Arweiniodd yr argymhellion a'r awgrymiadau hefyd at nifer o ddadansoddiadau penodol o ddata a phrosesau'r arolwg i'w cynnal. Cyfeirir at ganlyniadau'r dadansoddiadau hyn yn y ddogfen hon pan fo'n briodol a phan fo'r dadansoddiad wedi dangos bod angen gwelliannau i'r dulliau y gweithredwyd y rhain.

## 6. Perthnasedd

### 6.1 Anghenion defnyddiwr

Ar ddechrau 2020 cynullwyd sesiwn anghenion defnyddwyr gyda chynrychiolwyr o bob un o'r Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol i ddeall defnyddwyr yr ymchwil yn well, a'r ffordd orau i ddiwallu eu hanghenion ynghylch yr ymchwil. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar fersiwn flaenorol

yr arolwg (h.y. yn 2019 ac yn gynharach), ond ni ddisgwylir y bydd defnyddwyr na'u hanghenion yn wahanol iawn wrth symud ymlaen.

Nodwyd 13 grŵp defnyddwyr yn y sesiwn hon. Disgrifir y grwpiau hyn, a'u hanghenion a nodwyd yn y tabl isod:

Pwysigrwydd Cymharol y Grŵp defnyddwyr	Grŵp defnyddwyr	Disgrifiad:	Anghenion
<b>Prif</b>	Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol	Y timau ymchwil a mewnwelediad a gweithwyr eraill o fewn y sefydliadau sydd wedi comisiynu GBTS	Cynhyrchu a chyhoeddi ystadegau swyddogol. Defnyddio data ar gyfer rhagweld, dadansoddi strategol, cynllunio busnes a gwerthuso. Defnyddio'r data o'r arolwg hwn ochr yn ochr ag arolwg arall a gwybodaeth nad ydynt yn arolygu i fonitro perfformiad yr economi ymwelwyr ac i ddatgelu mewnwelediadau i dueddiadau'r farchnad dros amser.
<b>Prif</b>	Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol Rhanddeiliaid mewnol	Marchnata, Datblygu Busnes, a thimau Cysylltiadau Cyhoeddus/Y Wasg yn y Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol	Ystadegau rheolaidd i lywio gweithgareddau marchnata a datblygu cynnyrch. Ystadegau a mewnwelediadau rheolaidd at ddibenion cyhoeddusrwydd ac i ymateb i geisiadau rhanddeiliaid am wybodaeth.
<b>Prif</b>	Adrannau'r Llywodraeth sy'n noddi	Adrannau'r llywodraeth sy'n noddi'r arolwg	Ystadegau rheolaidd cadarn a dibynadwy am deithiau dros nos i lywio effaith economaidd, cyfrifyddu a threthiant cenedlaethol a lleol a pherfformiad yr economi ymwelwyr
<b>Prif</b>	Eurostat	Swyddfa ystadegol yr UE, yn gyfrifol am ystadegau twristiaeth Ewrop	Ystadegau twristiaeth blynyddol mewn fformat a ddiffiniwyd ymlaen llaw i'w cyfrannu at gronfa ddata o ystadegau twristiaeth Ewrop
<b>Prif</b>	Cyrff masnach twristiaeth/ diwydiant	Sefydliadau masnach sy'n cynrychioli gwahanol elfennau o'r diwydiant twristiaeth	Ystadegau cyffredinol a sector penodol i gefnogi cynhyrchu mewnwelediad, cynllunio strategol a monitro perfformiad ac effeithiau'r diwydiant.
<b>Eilaidd</b>	Awdurdodau Lleol	Adrannau llywodraeth leol sy'n gyfrifol am yr economi ymwelwyr	Ystadegau twristiaeth ar lefel leol i ddeall maint a gwerth twristiaeth leol
<b>Eilaidd</b>	Gweinidogion unigol a chynrychiolwyr etholedig	Gweinidogion etholedig a'u timau ymchwil	Gwybodaeth ddibynadwy i gyfrannu at drafodaeth polisi, briffio gwleidyddol a busnes y llywodraeth
<b>Eilaidd</b>	Asiantaethau menter	Megis Historic England, Historic Scotland ac ati. Yn	Ystadegau ar lefel benodol i bobl leol neu sector penodol i gefnogi

Pwysigrwydd Cymharol y Grŵp defnyddwyr	Grŵp defnyddwyr	Disgrifiad:	Anghenion
		cynnwys cyrff cyhoeddus di-adran eraill	gweithgarwch marchnata a datblygu a deall eu sylfaen defnyddwyr
<b>Eilaidd</b>	Busnesau twristiaeth	Busnesau'n gweithredu yn y sector twristiaeth, a'u sefydliadau rheoli	Ystadegau i'w defnyddio ar gyfer cynllunio busnes strategol ac i ddeall potensial buddsoddi a chyfleoedd ac anghenion y farchnad.
<b>Eilaidd</b>	Y wasg a'r cyfryngau	Mudiadau cenedlaethol a chyfryngau lleol	Rhoi gwybod am berfformiad twristiaeth a straeon tystiolaeth yn cael eu hymchwilio
<b>Trydyddol</b>	Ymgynghorwyr	Ymgynghorwyr sy'n gweithredu yn y diwydiant twristiaeth, neu'r rhai mewn diwydiannau eraill sy'n ymgynghori ar faterion sy'n gysylltiedig â thwristiaeth	Gwybodaeth i gefnogi'r hyn maen nhw'n ymgynghori arno
<b>Trydyddol</b>	Cyhoeddus cyffredinol	Aelodau unigol o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn ystadegau twristiaeth	Hawdd deall ystadegau twristiaeth mewn fformat hygyrch i'r cyhoedd
<b>Trydyddol</b>	Cydgrynhoi data	Cwmnïau sy'n cymryd data eilaidd presennol a'i becynnu i adroddiadau, fel Mintel	Data dibynadwy a chadarn, a gyhoeddir yn rheolaidd

## 6.2 Boddhad defnyddwyr

Mae cwestiynau newydd a ychwanegwyd yn 2021 yn GBTS a GBDVS yn dal gwybodaeth am deithiau a gymerwyd y tu allan i'r DU, gwybodaeth fanylach am weithgareddau a wnaed, gwybodaeth fanylach am ddulliau archebu ac amserlenni a gwybodaeth well am broffiliau ymatebwyr, gan gynnwys nodweddion gwarchoddedig. Rhagwelir y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon o werth i wahanol ddefnyddwyr yr arolygon.

Mae'r Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol eisoes wedi hysbysu rhanddeiliaid a defnyddwyr ystadegau'r newidiadau yn yr arolwg a chynlluniau ar gyfer cyhoeddi data 2021. Mae'r sefydliadau twristiaeth cenedlaethol yn bwriadu parhau i ymgysylltu â phrif ddefnyddwyr pan gyhoeddir data 2021 i gynghori newidiadau i'r arolwg ac i wirio a yw'n diwallu eu hanghenion. Caiff unrhyw welliannau pellach i'r arolwg sydd eu hangen i ddiwallu anghenion defnyddwyr hefyd eu hystyried.

## 6.3 Cyflawnrwydd

Ar hyn o bryd nid oes deddfwriaeth, rheoliadau na chanllawiau perthnasol penodol sy'n berthnasol i'r arolwg.

Fodd bynnag, yn y gorffennol roedd yn ofyniad i reoleiddiad y Comisiwn Ewropeaidd 692/2011 bod data cyfanredol twristiaeth penodol yn cael ei drosglwyddo i Eurostat yn flynyddol. Bwriad yr arolwg oedd bodloni'r gofynion hyn. Er nad oes angen cyflwyno'r data mwyach, mae'r arolwg yn parhau i ddefnyddio diffiniadau Eurostat ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr â thaith dros nos a dilyn canllawiau Eurostat ar ddsbarthiadau megis math o le yr ymwelwyd ag ef.

## 7. Cywirdeb a dibynadwyedd

### 7.1 Cywirdeb cyffredinol

Gan fod y data'n deillio o arolwg sampl nad yw'n debygolrwydd, nid yw asesiad meintiol o gywirdeb yn bosibl. Fodd bynnag, darperir asesiad ansoddol isod.

Rhagwelir mai prif ffynonellau gwall cywirdeb posibl yw:

- Camgymeriad cwmpas oherwydd defnyddio methodoleg panel ar-lein, sy'n golygu nad yw'r arolwg yn cyrraedd y rhan o'r boblogaeth nad ydynt yn gallu mynd ar-lein
- Camgymeriad mesur oherwydd ymatebwyr yn nodi gwerthoedd anghywir
- Gwall peidio ag ymateb oherwydd bod opsiynau 'ddim yn gwybod' ac 'mae'n well gen i beidio â dweud' ar gael

### 7.2 Gwall samplu

Mae GBTS yn sampl cwota ac felly ni ellir cyfrifo gwall samplu. Rhagamcanir y canlyniadau o'r sampl i'r boblogaeth o ddiddordeb (oedolion Prydain Fawr 16+ oed) gyda lefelau tybiedig o gywirdeb, sy'n golygu y gellir datblygu brasamcan o gyfyngau hyder amcangyfrifedig ar gyfer amcangyfrifon arolwg. Nid yw'r cyfrifiad hwn yr un fath ag y byddai ar gyfer sampl tebygolrwydd.

Mae data GBTS wedi'u pwysoli i gywiro ar gyfer unrhyw amherffeithrwydd yn y sampl a gyflawnwyd a allai arwain at ogwydd a hefyd i unioni unrhyw wahaniaethau rhwng y sampl a'r boblogaeth darged. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y cynllun pwysoli yn adran 4.5.

Mae'r prif risg o ogwydd samplu yn y posibilrwydd o wahaniaethau mewn agweddau neu ymddygiadau poblogaeth y panel ar-lein, o'i gymharu â'r boblogaeth darged. Mae gan y gogwydd hwn dair elfen:

- Gwahaniaethau rhwng y rhai sy'n gallu mynd ar-lein o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gallu mynd ar-lein
- Gwahaniaethau rhwng y rhai sy'n ymuno â phanel ar-lein a'r rhai sydd ddim yn ymuno â phanel ar-lein
- Gwahaniaethau rhwng y rhai sy'n dewis cwblhau'r arolwg a'r rhai sydd ddim

Mae'n anodd mesur y gogwydd hwn, ac felly, anodd cywiro amdano. Fodd bynnag, rhagwelir bod elfen gyntaf y gogwydd hwn yn fach iawn, gan fod gan 96% o holl aelwydydd Prydain fynediad i'r rhyngwyd yn 2020.<sup>2</sup>

## 7.3 Gall nad yw'n un samplu

### 7.3.1 Gwall cwmpas

Gan y defnyddir sampl cwota, yn yr achos hwn ystyrir bod gwall cwmpas a gwall samplu yr un fath. Ymhlith yr ymdrechion i leihau'r gwall hwn mae defnyddio cymysgedd o bartneriaid panel i liniaru ar gyfer gogwydd penodol i banel posibl, a chadw'r cymysgedd hwn o baneli yn gyson dros amser. Mae cwotâu hefyd yn deillio o gyfanswm ystadegau'r boblogaeth, yn hytrach na'u seilio ar ystadegau poblogaeth panel i sicrhau nad oes unrhyw grwpiau demograffig yn cael eu tangynrychioli.

### 7.3.2 Gwall mesur

Mae'n anochel mewn unrhyw arolwg bod risg o gamgymeriad mesur oherwydd bod gwerthoedd anghywir yn cael eu nodi. Rhagwelir y bydd y gwall hwn yn fach yn achos GBTS, oherwydd y camau a gymerwyd i leihau'r risg hon:

- Defnyddio arolwg hunan-gwblhau, cael gwared ar y risg o gamgymeriad mesur a achosir gan gyfwelwyr yn cam-glywed neu'n camddeall ymatebion
- Cyfarwyddiadau arolwg manwl sy'n dweud yn glir wrth bob ymatebwr beth sydd ei angen ganddyn nhw ar bob cwestiwn, gyda sylw ychwanegol i gwestiynau mwy cymhleth, fel y rhai sy'n gofyn am wariant
- Dilysu data wedi'i gynnwys yn sgript yr arolwg, sy'n gwirio ymatebion yn awtomatig yn erbyn y rhai a roddwyd yn flaenorol pan fo hynny'n berthnasol
- Nifer o 'wiriadau meddal' sy'n gofyn i'r ymatebwyr wirio ymatebion anarferol a'u diwygio os oes angen
- Darparu opsiynau 'ddim yn gwybod' ac 'mae'n well gen i beidio â dweud' er mwyn i ymatebwr allu roi'r gwirionedd
- Arolwg a sgript wedi'u dylunio'n ofalus a'u profi, sy'n gweithio yn awtomatig ar wahanol ddyfeisiau, gan optimeiddio sut mae pob ymatebwr yn ystyried pob cwestiwn

---

2

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/bulletins/internetaccesshouseholdsandindividuals/2020>

- Arolwg deinamig sy'n gofyn i'r ymatebwyr am eu hymddygiad wrth gymryd taith yn y pedair wythnos lawn cyn cwblhau'r arolwg. Mae hyn yn lleihau'r risg o effeithio ar adalw oherwydd bod yr arolwg yn digwydd gryn amser wedi i'r ymddygiad ddigwydd

### 7.3.3 Gwall dim ymateb

Gwall dim ymateb oherwydd bod yr opsiynau 'ddim yn gwybod' ac 'mae'n well gen i beidio â dweud' ar gael sy'n debygol o fod y ffynhonnell wall bosibl fwyaf yn y casgliad data. Mae'r opsiynau hyn wedi'u cynnwys yn fwriadol i leihau gwall mesur, sydd fel arfer yn cael mwy o effaith na gwall dim ymateb ar y data sy'n deillio o hynny. Nodir bod cwestiynau sy'n casglu manylion am y swm sy'n cael ei wario ar daith yn cael eu nodi fel rhai sydd â'r risg fwyaf o gamgymeriad dim ymateb.

Ymhlith y camau i leihau'r risg o gamgymeriad dim ymateb mae cyfarwyddiadau clir a manwl ar gyfer yr arolwg.

Mae'r priodoliadau sy'n digwydd ar y cam prosesu data (a ddisgrifir yn adran 4.5) yn helpu i leihau effaith y gwall hwn, ond nid yw'n lliniaru yn ei erbyn yn llwyr.

Bydd nifer y teithiau y bu angen eu priodoli oherwydd dim ymateb yn cael eu monitro'n ofalus a'u datgan yn yr adroddiadau blynyddol. Fe'u nodir hefyd yn y ddogfen hon yn adran 4.5.

### 7.3.4 Gwall prosesu

Ni ddisgwylir y bydd gwall prosesu yn digwydd oherwydd gwallau wrth drawsnewid data yn fformatau darllenadwy cyfrifiadurol. Mae hyn oherwydd bod meddalwedd wedi'i chynllunio'n arbennig yn cael ei defnyddio i gasglu'r data, sy'n storio'r data yn awtomatig yn y fformatau angenrheidiol.

Fodd bynnag, mae risg o brosesu gwall ar ffurf yr adroddiadau rheolaidd ac ad-hoc a gynhyrchir o ddata'r arolwg. Os bydd unrhyw wallau'n cael eu nodi byddant yn cael eu dogfennu yn yr adroddiad hwn yn flynyddol, yn ogystal ag yn y fersiwn a ail-ryddhawyd o'r adroddiadau perthnasol, ac yn yr adroddiad blynyddol.

## 7.4 Diwygio data

### 7.4.1 Diwygio data – polisi

Mae'r allbwn diweddaraf hwn o'r data GBTS, a gyhoeddwyd ar 12 Medi 2023, yn ddiwygiad, ar ôl gwneud dau benderfyniad i roi capiau ychwanegol ar waith ar gyfer niferoedd a gwariant i ddechrau ac yn ail i raddodi'r data hanesyddol. Gwnaed y penderfyniadau hyn yn annibynnol ar ei gilydd ac roeddent mewn ymateb i wahanol ymholiadau data. Rhoddwyd capiau niferoedd a gwariant ar waith ar gyfer data 2021 i reoli effaith triplau neu wariant anarferol o fawr. Gwnaed



gwaith dadansoddi ar ddata 2021 i asesu effaith yr allbwytiau hyn, yr oedd rhai ohonynt yn gyfrifol am hyd at 30% o wariant neu niferoedd misol ar gyfer cenedl yn ystod mis penodol. Yn dilyn y dadansoddiad hwn, cytunwyd ar y capiau ac fe'u rhoddwyd ar waith, gan leihau effaith unrhyw dripiâu allbwyt. Amlinellir y capiau niferoedd a gwariant newydd yn adran 4.5.1.

Yn dilyn hyn, graddnodwyd data 2021 i sicrhau bod amcangyfrifon ar gyfer 2021 yn cyd-fynd â data 2022, yn dilyn newid a wnaed i'r holiadur yn 2022. Fe wnaeth newid i eiriad cwestiwn, a wnaed yn 2022, ddiwygio niferoedd tripiâu twristiaeth dros nos. I sicrhau bod y data hanesyddol yn cyd-fynd â 2022, cytunwyd y byddai ôl-raddnodiad yn cael ei roi ar waith rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ebrill 2022. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn adran 4.5.4.

Byddai unrhyw ddiwygiadau data posibl eraill heb eu cynllunio.

Os bydd diwygiad data yn cael ei nodi sy'n effeithio ar ddata yn y parth cyhoeddus dilynir y weithdrefn ganlynol:

- Mae angen diwygio'r data wedi'i nodi i'r Sefydliadau Twristiaeth Cenedlaethol ac / neu y cyflenwr data cyn gynted â phosibl
- Mae disgrifiad clir o'r gwall data yn cael ei esbonio, gan gynnwys asesiad o'r effaith mae hyn wedi'i gael ar y canlyniadau
- Mae'r adroddiadau sy'n cael eu heffeithio gan y gwall yn cael eu diwygio a'u hail-ryddhau, gan gynnwys esboniad o'r camgymeriad a'r effaith y mae wedi'i gael

